# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

| | | |
|---|---|---|
| 01 | **Uchafbwyntiau eleni** | **03** |
| 02 | **Rhagair gan Gomisiynydd Plant Cymru** | **06** |
| 03 | **Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau** | **09** |
| 04 | **Barn ein paneli ymgynghorol** | **24** |
| 05 | **Y Ffordd Gywir** | **26** |
| 06 | **Ein 'cerdyn adroddiad': pa gynnydd mae hawliau plant wedi'i wneud yng Nghymru yn 2018-19?** | **34** |
| 07 | **Diweddglo ac argymhellion allweddol** | **82** |
| 08 | **Prosesau sefydliadol** | **87** |
| 09 | **Cyfrifon** | **100** |


Ein blwyddyn mewn rhifau

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Dyma beth gyflawnwyd gan 23 aelod o staff eleni:

**9857**

Ymgysylltu â 9857 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd

**11,771**

Bu pobl yn edrych ar ein hadnoddau addysg ar Hwb 11,771 o weithiau

**671**

Rheoli 671 o achosion trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol

**29**

Ymateb i 29 ymgynghoriad gan y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**700**

Hyfforddi'n uniongyrchol oddeutu 700 o blant a phobl ifanc i fod yn Lysgenhadon hawliau yn eu hysgolion a'u cymunedau

**10,000**

Ymgynghori â mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc i lywio'n cynllun newydd tair blynedd

**6**

Cyhoeddi 6 adroddiad ar bynciau o anableddau dysgu i dlodi plant

**100**

Fe wnaeth y Comisiynydd yn bersonol gwrdd â rhyw 100 grŵp o blant a phobl ifanc

**54**

Gweithio gydag o leiaf 54 gweithgor a sefydliad ar amrywiaeth o faterion hawliau plant

**640**

Sicrhau o leiaf 640 enghraifft o sylw i'r sefydliad mewn darllediadau a phrint, fel bod dros 131 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am ein gwaith

**6392**

Cynnal yr arolwg hawliau addysg cyntaf erioed, gan sicrhau 391 o ymatebion gan athrawon a 6392 o ymatebion gan blant a phobl ifanc.

# Ein Prif Lwyddiannau

## Ein prif lwyddiannau rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 o Fawrth 2019

- Cynnal arolwg enfawr gyda phlant ac oedolion a chyhoeddi ein cynllun gwaith 2019-22
- Cyhoeddi adroddiadau ar bontio i fyd oedlion i blant gydag anableddau dysgu, bwlio ar-lein, tlodi plant ac am hawliau plant mewn ysgolion sy'n cynnwys data newydd oddi wrth bobl ifanc, rhieni a phobl broffesiynol. Fe fyddwn ni'n galw ac yn gwthio am newid yn yr holl feysydd yma.
- Cyhoeddi adolygiad awdurdodol o dystiolaeth ar statws hawliau plant yng Nghymru.
- Ennill gwobr Aur am ein gwaith ar Daclo Islamoffobia gan y 'Chartered Institute of PR'
- Cefnogi sefydliadau cyhoeddus mawr yng Nghymru i fabwysiadu dull yn seiliedig ar hawliau plant, gan gynnwys Heddlu De Cymru.
- Croesawi'n fawr Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) Cymru fydd yn gwarchod plant rhag cosb corfforol. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn ymgyrchu am Fil o'r fat hers ei diwrnod cyntaf yn y swydd.
- Gweld aelodau'n cael eu hethol i Senedd Ieuenctid cyntaf Cymru ac yn dechrau ar eu gwaith. Rydyn ni wedi bod yn ymgyrchu am sefydlu'r fath Senedd am amser ac wedi cefnogi datblygiad y Senedd cyntaf ers ei sefydlu.
- Gweld Llywodraeth Cymru'n cymryd camau mawr at ddatblygu dull ysgol-gyfan tuag at les – eto, yn alwad mawr gan y Comisiynydd.
- Gweld Llywodraeth Cymru'n derbyn 'tri prawf' y Comisiynydd i sicrhau fod rheiny sy'n cael eu haddysgu adref yn derbyn eu hawliau. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi addo cyhoeddi canllawiau statudol newydd i sicrhau hyn.
- Creu a chyhoeddi dogfennau o safon i ysgolion ar wahanol feysydd i gefnogi hawliau, gan gynnwys taclo bwlio ar-lein, ac help i sefydlu prosiectau pontio'r cenedlaethau – mae'n nhw'n cael eu defnyddio'n helaeth gan ysgolion erbyn hyn.


Rydyn ni wedi arwain y byd wrth hybu a diogelu hawliau plant; rhaid i ni beidio rhoi'r gorau arni nawr

# Rhagair

## Ddeunaw mlynedd yn ôl sefydlwyd y swyddfa hon o ganlyniad i ymchwiliad arloesol Waterhouse i gam-drin plant mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru. Dyna oedd un o'r enghreifftiau cyntaf o ddeddfwriaeth a grewyd gan Gynulliad Cymru, oedd newydd ei sefydlu, ac sy'n dathlu 20 mlynedd eleni.



Un o brif swyddogaethau'r comisiynydd plant yw diogelu a hybu hawliau plant, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – y cytuniad hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd gan y nifer mwyaf o wledydd, sy'n dathlu 30 mlynedd eleni.

Thema gyffredin sy'n cysylltu'r tri dyddiad pwysig yma yw lleisiau plant. Daeth Waterhouse i fodolaeth oherwydd methiannau difrifol i wrando ar blant oedd yn cael eu cam-drin. Un o gasgliadau'r ymchwiliad oedd bod angen sefydlu pencampwr annibynnol i blant yng Nghymru, pencampwr fyddai'n gwrando arnyn nhw ac yn codi llais ar eu rhan, ac rwy'n ymdrechu i gyflawni'r ddyletswydd honno bob dydd wrth lenwi fy swydd. P'un a yw hynny'n un sgwrs gyda phlentyn a rhywun sy'n gofalu amdanynt – a arweiniodd aton ni'n cynnal gwaith maes helaeth ac yn cyhoeddi 'Paid Dal yn ôl' eleni am bobl ifanc sydd ag anableddau yn pontio i oedolaeth – neu'n ymgysylltu â miloedd o blant a phobl ifanc i helpu i lywio fy nghynllun gwaith, rwy'n gwybod bod fy ngwaith, ac felly bod y canlyniadau rydyn ni'n eu cyflawni, yn cael llawer mwy o effaith os ydyn nhw'n cael eu gyrru gan fywydau'r genhedlaeth bresennol o blant, yr wyf fi yma i'w gwasanaethu.

>>>

Mae sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru hefyd yn elwa'n fawr o wrando ar blant a gwneud barn a hawliau plant yn ganolog i'w penderfyniadau. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn y maes hwnnw eleni yw sefydlu senedd gyntaf erioed Cymru i bobl ifanc – Senedd Ieuenctid Cymru. Mae angerdd yr aelodau ifanc, eu blaenoriaethau a'u balchder dros eu gwlad yn heintus, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw i alw Llywodraeth Cymru i gyfrif ac i sefydlu system fydd yn golygu bod yr aelodau ifanc hyn yn gallu fy ngalw innau i gyfrif, fel pencampwr iddyn nhw. Rwy'n falch bod sawl gwasanaeth cyhoeddus pwysig, drwy weithio ochr yn ochr â'm tîm, yn dechrau gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, sy'n cynnwys sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n eu gwasanaethu yn cael gwrandawiad, a bod modd eu gwneud yn atebol.

Rydyn ni hefyd wedi gweld Llywodraeth Cymru yn rhoi arwyddocâd mawr i CCUHP eleni yn y Bil uchelgeisiol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) – sy'n cydnabod plant fel deiliaid hawliau unigol ac yn cydnabod pwysigrwydd bywyd teuluol diogel, yn rhydd rhag niwed corfforol. Mae'n anrhydedd i mi gael gwasanaethu fel Comisiynydd Plant mewn gwlad lle mae'r Llywodraeth yn dymuno amddiffyn ei holl ddinasyddion, ac rwy'n hyderu y bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil pwysig hwn yn ddiweddarach eleni, gan gyflawni galwad a wnaed gan fy rhagflaenwyr a minnau ers nifer o flynyddoedd.

Mae wedi bod yn flwyddyn o ddyddiadau arwyddocaol ac yn flwyddyn o newidiadau arwyddocaol, felly, ar gyfer hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo. Rydyn ni wedi arwain y byd wrth hybu a diogelu hawliau plant; rhaid i ni beidio â rhoi'r gorau i hynny nawr. Mae yna enghreifftiau o herio hawliau plant dal yn digwydd ledled Cymru, ac nes bod y rheiny wedi derbyn sylw, bydda i'n parhau i wneud popeth sydd o fewn fy ngallu fel Comisiynydd i wella bywydau'r genhedlaeth bresennol o blant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad hwn, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019, yn cynnwys fy ngalwadau brys ar Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfle i fwrw goleuni ar gyflawniadau pwysig fy nhîm bychan o staff sy'n gweithio'n ddiflino i sbarduno gwelliannau i fywydau plant.

**Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru

> **…yn flwyddyn o newidiadau arwyddocaol i hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ond rhaid i ni beidio rhoi'r gorau nawr.**

...gweithio'n ddiflino i hybu a diogelu hawliau plant yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Cynllun tair blynedd

Ar sail yr ymgynghoriad helaeth â mwy na 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn 2015, fe wnaethom gyhoeddi ein cynllun tair blynedd strategol tair blynedd yn gynnar yn 2016: **Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 i 2019**. Roedd y cynllun tair blynedd hwn yn cynnwys chwe blaenoriaeth:

1. **Iechyd meddwl, llesiant a mynd i'r afael â bwlio**
2. **Tlodi ac anghydraddoldebau cymdeithasol**
3. **Chwarae a hamdden**
4. **Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol a gartref)**
5. **Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hyrwyddo ei fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus**
6. **Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus**

Isod ceir manylion ein prif gyflawniadau dros blant a phobl ifanc ym **mlwyddyn 3** o gynllun strategol y Comisiynydd. Gallwch chi ddarllen am ein prif gyflawniadau ym **mlynyddoedd 1 a 2** o'n cynllun strategol **yma**

# Blwyddyn 3 (2018/19)

## IECHYD MEDDWL, LLESIANT A BWLIO

### Tasg Arbennig

Tasg arbennig ar bwlio ar-lein. Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith hwn ar dudalen 17 .

### Bright Spots

Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â Coram Voice a Llywodraeth Cymru i ariannu rhaglen beilot gyda 6 awdurdod lleol i gynnal arolwg o lesiant plant sy'n derbyn gofal yn yr awdurdodau dan sylw. Cyflwynwyd adroddiadau wedi'u teilwra ar gyfer pob awdurdod eleni.

## TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL

### 'Siarter ar gyfer Newid'

Yn fuan wedi cyhoeddi'r adroddiad, darparodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad ychwanegol i estyn mynediad i'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) (grant ar gyfer gwisg ysgol, cyfarpar ac offer chwaraeon), a chyflwyno cynnyrch hylendid am ddim ar draws ysgolion Cymru. Mae'r ddau beth yma'n gysylltiedig ag argymhellion yn fy adroddiad.
Rwyf wedi cwrdd â Phrif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (sy'n gyfrifol am liniaru tlodi plant) i drafod yr adroddiad.

>>>

## CHWARAE A HAMDDEN

### Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

**Cyflwynwyd datganiad ar y cyd** â Chomisiynwyr Plant eraill y Deyrnas Unedig i nodi 31 mlynedd o'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ar 1 Awst 2018
Darparwyd ymateb ymgynghori a ddylanwadodd ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno, am y tro cyntaf, ofyniad yn y rheoliadau bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cefnogi plant sy'n cael eu lleoli gyda nhw i ymgysylltu â chwarae, hamdden a gweithgareddau eraill o dan Erthygl 31 o CCUHP.

## DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A'R CARTREF

### Sefydliad Siartredig PR

Cawson ni wobr PRide am ein gwaith ar Daclo Islamoffobia.

### Tasgau Arbennig

- Taclo Islamoffobia
- Prosiect pontio'r cenedlaethau

Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith yma o dudalen 17.

>>>

## CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### Dull seiliedig ar Hawliau Plant

Cefnogi cyrff cyhoeddus allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Heddlu De Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Bro Morgannwg i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith yma ar dudalen o dudalen 26.

>>>

## PONTIO I OEDOLAETH

### 'Paid Dal yn ôl'

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno profiadau a barn 99 o bobl ifanc, 187 o rieni a gofalwyr a 43 o weithwyr proffesiynol ar bontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu.

Yn dilyn gohebiaeth mae Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried yr argymhellion fel rhan o gyflwyno'r Rhaglen Gwella Bywydau a hefyd gan y Grŵp Ymgynghori Gweinidogol ar Anableddau Dysgu.

>>>

# Blwyddyn 3 (2018/19)

## IECHYD MEDDWL, LLESIANT A BWLIO

### Dull gweithredu ysgol gyfan

Yn dilyn galwadau gan fy swyddfa, pwyllgor Plant y Cynulliad ac eraill, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd a llesiant emosiynol, a chyhoeddi arian ychwanegol sylweddol ar gyfer yr agenda hon. Rydyn ni'n disgwyl mwy o fanylion ynghylch fframwaith rhoi dull gweithredu ysgol gyfan ar waith yn fuan.

## TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL

### 'Siarter ar gyfer Newid'

Mae bwriad nawr i ymgysylltu ymhellach ynghylch yr argymhellion a thaclo tlodi plant yn y flwyddyn ariannol newydd. mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar weithdai a sgyrsiau gyda mwy na 550 o blant a phobl ifanc, rhwng 5 a 21 oed, ar draws ysgolion a lleoliadau cymunedol – pawb ohonynt yn neu wedi profi byw ar incwm isel; arolwg o bron 300 o rieni / ofalwyr, gweithdai a sgyrsiau gyda rhyw 20 o rieni/ofalwyr, a gweithdai a sgyrsiau gyda mwy na 40 o bobl broffesiynol sy'n gweithio mewn plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi.

## CHWARAE A HAMDDEN

### Cyflwynwyd datganiad ar y cyd

Buon ni'n ymgysylltu â mwy na 1300 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn Niwrnod Chwarae Conwy; cafodd eu barn ei bwydo i'n prosiect 'Beth Nawr'.

## CHWARAE A HAMDDEN DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A'R CARTREF

### 'Paid â phoeni, rydw i yma i ti': Profiadau plant o seiberfwlio yng Nghymru

Tir newydd i Gymru: Adroddiad yn amlinellu barn a syniadau dros 400 o blant a phobl ifanc a mwy na 150 o weithwyr proffesiynol. Mae'r adroddiad hwn yn edrych, am y tro cyntaf, ar farn plant 9-18 oed am effeithiau seiberfwlio yng Nghymru.

## CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### Llysgenhadon Hygyrch

Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith yma ar dudalen 20.

### 'Y Ffordd Gywir: Arolwg Addysg 2018'

Trwy 'Y Ffordd Gywir: Arolwg Addysg 2018' trefnwyd yr arolwg cenedlaethol cyntaf erioed i fesur i ba raddau mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn profi pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu haddysg.

## PONTIO I OEDOLAETH

### 'Paid Dal yn ôl'

Rwy'n edrych ymlaen at gael manylion pellach am hyn, ac rwy'n deall eu bod yn debygol o fod ar gael tua diwedd gwanwyn 2019.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod gan y Côd Ymarfer newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol botensial i wella'r trefniadau pontio rhwng nifer o asiantaethau. Rwyf wedi darparu ymateb manwl i'r ymgynghoriad ffurfiol a ddaeth i ben ar 22 Mawrth 2019, a byddaf yn craffu ar sut mae'r Llywodraeth yn symud ymlaen gyda'm cynigion. Bu'r dystiolaeth o'r adroddiad hwn hefyd yn llywio fy ngalwad am drefniadau pontio mwy effeithiol rhwng yr holl wasanaethau iechyd pediatrig ac oedolion. O ganlyniad mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar ganllawiau newydd.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

Er mwyn llywio cynllun gwaith tair blynedd olaf y Comisiynydd fe gynhalion ni ymarferiad ymgynghori ar raddfa fawr er mwyn sicrhau bod lleisiau plant, pobl ifanc a'r rhai sydd â gofal amdanynt/drostynt yn llywio'r cynllun gwaith.

Rhannwyd y prosiect yn dri chyfnod, a'i nod oedd casglu barn a safbwyntiau plant, pobl ifanc a'r rhai sydd â gofal amdanynt/drostynt ledled Cymru.

Cynhaliwyd **Cyfnod 1** rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018, a dyma oedd cyfnod ansoddol y prosiect. Roedd yn cynnwys ymgyngoriadau wyneb yn wyneb â'r Comisiynydd a'i thîm mewn digwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru, gan gynnwys gyda sefydliadau addysg a iechyd, byrddau iechyd, grwpiau cleifion, ac arbenigwyr ar iechyd plant, sefydliadau academaidd, grwpiau cymunedol, grwpiau Llysgenhadon y Comisiynydd, cyrff anllywodraethol a phlant a phobl ifanc 3+ oed a ddaeth i Eisteddfod yr Urdd.

Cwblhawyd **Cyfnod 2** ym mis Hydref, pryd y buon ni'n comisiynu adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch hawliau dynol plant yng Nghymru, gan gwmpasu'r cyfnod o 2015 hyd heddiw. Nod yr adolygiad hwn o'r dystiolaeth oedd gweld y darlun presennol o ran gwireddu hawliau plant yng Nghymru, a hefyd ceisio canfod pa ddata sy'n cael ei gasglu eisoes yng Nghymru er mwyn medru monitro hawliau plant yn effeithiol.

>>>



# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

Cynhaliwyd **Cyfnod 3** rhwng Hydref a Thachwedd 2018. Fe gyhoeddon ni bum fersiwn ddwyieithog o'r arolwg, oedd yn cynnwys yr un pynciau, ond roedd yr iaith a'r eitemau yn amrywio fel hyn:

- **Gweithdai oed-briodol i blant 2-7 oed**
- **Arolwg i blant 7-11 oed gydag opsiwn Iaith Arwyddion Prydain**
- **Arolwg i bobl ifanc 11-18 oed gydag opsiwn Iaith Arwyddion Prydain**
- **Fersiwn Hygyrch gyda symbolau Widgit ar gyfer plant a phobl ifanc 7-18 oed**
- **Gweithwyr proffesiynol (pobl sy'n gweithio gyda neu dros blant a phobl ifanc yng Nghymru)**
- **Rhieni a gofalwyr**

Cymerodd dros 10,000 o blant a phobl ifanc 3-18 oed ran yng Nghyfnod 3.

- **847 o blant 3-7 oed (mewn gweithdai)**
- **6902 o blant 7-11 oed**
- **2300 o bobl ifanc 11-18 oed**
- **34 o bobl ifanc 10-18 oed a ddefnyddiodd y fersiwn hygyrch**
- **647 o rieni/ofalwyr**
- **585 o weithwyr proffesiynol**

Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio'n cynllun tair blynedd newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019. Mae ein cynllun newydd yn cynnwys dyheadau'r Comisiynydd ar gyfer Cymru, ein diben, ein gwerthoedd a'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Cynllun Llysgenhadon

Rydyn ni'n cynnal tri chynllun di-dâl sy'n grymuso plant a phobl ifanc i fod yn Llysgenhadon i'r Comisiynydd yn eu hysgol neu eu grŵp cymunedol. Mae'r Llysgenhadon hyn yn chwarae rôl arweiniol yn hyrwyddo hawliau plant a rôl y Comisiynydd. Mae'r cynlluniau hefyd yn galluogi miloedd o blant a phobl ifanc i fwydo i waith y swyddfa trwy Dasgau Arbennig (dull systematig o ymgynghori ag ystod o blant a phobl ifanc a derbyn gwybodaeth ganddynt am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith thematig y swyddfa).

**Llysgenhadon Gwych** - Mae dros 500 o ysgolion cynradd wedi ymuno â'n cynllun, ac fe gynhalion ni dri digwyddiad ym mis Hydref 2018 i hyfforddi athrawon a Llysgenhadon Gwych, lle buon ni'n gweithio gyda 295 o blant a 143 o oedolion oedd yn cynrychioli 21 awdurdod lleol. Buon ni hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau clwstwr llai, gan gynnwys rhai yng ngogledd Powys, Merthyr, Torfaen a Bro Morgannwg, lle buon ni'n gweithio gyda 158 o ddisgyblion a 53 o oedolion ychwanegol.

**"Amrywiaeth o weithgareddau, wedi'u trefnu'n dda. Er mod i wedi bod yn dod ers rhai blynyddoedd, rwy'n dal i gael syniadau newydd ar ôl bod yma! Cafodd fy nisgyblion AAA dipyn o gefnogaeth gan aelod o staff CPC ...fe wnaeth y disgyblion fwynhau cwrdd â Sally yn fawr, ac fe wnaeth hi eu hysbrydoli nhw. Adnoddau gwych."** Adborth gan athro a ddaeth i un o'n digwyddiadau hyfforddi

**"Mae ein Llysgenhadon yn awyddus bob amser i gymryd rhan yn y dasg arbennig gan Sally ac yn awyddus hefyd i gysylltu gyda ystod helaeth o ddisgyblion ein hysgol bob dydd."**
Hannah O'Neill, Athrawes Gelf a chydlynydd y Senedd a llais plant, Cymdeithas Ddysgu Ebbw Fawr

**"Mae gan Gymdeithas Ddysgu Ebbw Fawr dîm hawliau plant mawr. Mae nhw'n angerddol dros hyrwyddo hawliau plant ac yn modelau rôl ffantastig i eraill o fewn yr ysgol ac yn awyddus o hyd i anerch gwasanaethau a chefnogi tiwtoriaid adeg cofrestru diolch i hyfforddiant gwych gan swyddfa'r Comisiynydd Plant."**

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

**Llysgenhadon Myfyrwyr** - Mae dros 110 o ysgolion uwchradd wedi ymuno â'n cynllun uwchradd. Eleni fe gynhalion ni ein Cynhadleddau Myfyrwyr cyntaf ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr. Fe fuon ni'n gweithio gyda'r disgyblion i gynnal gweithdai dan arweiniad cyfoedion ar ein hadnodd Seiberfwlio, ac fe gawson ni fewnbwn hefyd gan Agenda Wales, a gyflwynodd weithdy ar gydraddoldeb rhywedd.

Yn ein digwyddiad yn ne Cymru roedd 39 o ysgolion yn bresennol, oedd yn cynnwys 7 ysgol Gymraeg a 2 ysgol arbennig, fel bod 78 o bobl ifanc a 39 o athrawon wedi gallu cymryd rhan. Yn ein digwyddiad yng ngogledd Cymru roedd 15 o ysgolion yn bresennol, oedd yn cynnwys 6 ysgol Gymraeg ac 1 ysgol arbennig, fel bod 65 o bobl ifanc a 15 o athrawon wedi gallu cymryd rhan.

**Dyma beth o'r adborth gan y rhai oedd yn bresennol:**

**"Roedd y ffordd o ddysgu yn hawdd a gyflym. "Sawl gweithgaredd gwahanol; pawb yn ran o'r weithgaredd." "Roedd y gwahanol weithgareddau'n cael effaith fawr ar yr adborth gallwn ni roi i'n hysgol."**

**Llysgenhadon Cymunedol** – recriwtiwyd 7 grŵp newydd, oedd yn cynnwys DEFFO, Cyngor Ieuenctid Caerfyrddin a Grŵp Hawliau Caerffili yn dilyn 10 gweithdy. Gwahoddwyd pob un o'r 17 grŵp i gymryd rhan yn yr holl dasgau arbennig, a gafodd eu haddasu ar gyfer lleoliadau cymunedol.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Tasgau Arbennig 18/19

| AMSERU | THEMA | LLYSGENHADON GWYCH (CYNRADD) | LLYSGENHADON MYFYRWYR (UWCHRADD) | ALLBYNNAU |
|---|---|---|---|---|
| Gwanwyn 2019 | **Bwlio ar-lein**<br>Fe gynhalion ni brosiect yn ystod yr haf a siarad â mwy na 400 o bobl ifanc a 150 o athrawon a gweithwyr ieuenctid er mwyn dysgu am brofiadau pobl ifanc o fwlio ar-lein a pha atebion sy'n gweithio iddyn nhw.<br>Dywedodd gwaith y prosiect wrthyn ni fod plant a phobl ifanc yn gwybod beth i'w wneud pan fydd seiberfwlio'n digwydd (e.e. blocio a riportio), ond y bydden nhw'n hoffi mannau diogel i drafod eu profiadau a strategaethau sy'n cael eu harwain gan gyfoedion. | Sefydlu 'grŵp seiberweithredu' yn yr ysgol.<br>Fe greon ni 'becyn gwaith' o weithgareddau y gall y grŵp eu defnyddio a'u harwain fel cyfoedion i helpu i daclo bwlio ar-lein.<br>Mae'r pecyn gwaith yn cynnwys gwahanol weithgareddau ar gyfer Llysgenhadon Gwych a Llysgenhadon Myfyrwyr.<br>Mae fersiwn hygyrch ar gael hefyd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. | Sefydlu 'grŵp seiberweithredu' yn yr ysgol.<br>Fe greon ni 'becyn gwaith' o weithgareddau y gall y grŵp eu defnyddio a'u harwain fel cyfoedion i helpu i daclo bwlio ar-lein.<br>Mae'r pecyn gwaith yn cynnwys gwahanol weithgareddau ar gyfer Llysgenhadon Gwych a Llysgenhadon Myfyrwyr.<br>Mae fersiwn hygyrch ar gael hefyd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. | Rydyn ni'n gwybod bod 31 o ysgolion wedi cymryd rhan yn y dasg a bod y pecynnau gwaith wedi cael eu lawrlwytho 253 o weithiau mewn dau fis yn unig.<br>Defnyddiwyd y data am brofiadau plant a phobl ifanc o seiberfwlio yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau newydd gwrthfwlio i ysgolion.<br>Defnyddiodd Ysgol Uwchradd Rhyl, Ysgol Gyfun Gŵyr, Ysgol Gyfun Treforys ac aelodau o'n Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y pecyn gwaith i arwain gweithgareddau fel cyfoedion yn ystod ein Cynhadledd gyntaf i Lysgenhadon Myfyrwyr.<br>Bu disgyblion o Ysgol Gyfun Gŵyr a gefnogodd y dasg hon yn cymryd rhan ym mhrosiect ENYA 2019 – "Gadewch i ni siarad am ieuenctid, gadewch i ni siarad am hawliau plant yn yr amgylchedd digidol" |

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Tasgau Arbennig 18/19

| AMSERU | THEMA | LLYSGENHADON GWYCH (CYNRADD)) | LLYSGENHADON MYFYRWYR (UWCHRADD) | ALLBYNNAU |
|---|---|---|---|---|
| Haf 2018 | 'Y Ffordd Gywir: Arolwg Addysg 2018'<br>Fe ddatblygon ni arolwg ar-lein i ysgolion fesur profiad plant o'u hawliau yn yr ysgol. Roedd y cwestiynau wedi'u seilio ar yr egwyddorion yng nghanllawiau'r Comisiynydd i ysgolion ond roedden nhw wedi'u gwahaniaethu ar gyfer disgyblion ac athrawon.<br>Cafodd pob ysgol adroddiad unigol ar eu hatebion, ac fe gawson ninnau adroddiad Cymru gyfan nad oedd yn crybwyll enwau. | Arolwg – pa mor gefnogol i hawliau yw eich ysgol chi?<br>Gall yr holl blant 7-11 oed a'r holl staff addysgu gymryd rhan. Bydd eich ysgol yn cael adroddiad personol yn dangos sut mae plant yn cael hawliau yn eich ysgol chi.<br>Defnyddiwch yr adroddiad i gynllunio targedau eich ysgol ar gyfer y flwyddyn nesaf. | Arolwg – pa mor gefnogol i hawliau yw eich ysgol chi?<br>Arolwg ar gyfer yr holl bobl ifanc a'r holl staff addysgu. Bydd eich ysgol yn cael adroddiad personol yn dangos sut mae pobl ifanc yn profi hawliau yn eich ysgol chi.<br>Defnyddiwch eich templed cynllunio i ddathlu eich cryfderau a gosod targedau ar gyfer gwella | Cawson ni 391 o ymatebion gan athrawon a 6392 o ymatebion gan blant a phobl ifanc. Gallwch chi weld y canlyniadau cyffredinol yma. Byddwn ni'n cynnal y dasg hon eto yn Haf 2019 er mwyn i ysgolion fedru mesur eu cynnydd.<br>Mae'r canlyniadau wedi bwydo i'n cynllun gwaith tair blynedd.<br>Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r canlyniadau fel rhan o'n galwad ar y llywodraeth i sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ganolog i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. |



# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Tasgau Arbennig 18/19

| AMSERU | THEMA | LLYSGENHADON GWYCH (CYNRADD) | LLYSGENHADON MYFYRWYR (UWCHRADD) | ALLBYNNAU |
|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn 2018** | **Prosiect pontio'r cenedlaethau**<br>Fe gynhyrchon ni gyfres o fideos a chynllun gwersi gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dangos manteision sefydlu prosiect pontio'r cenedlaethau.<br><br>**Prosiect Islamoffobia**<br>Fe gynhyrchon ni gyfres o fideos, cynlluniau gwersi ac adnoddau gweithgareddau gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. | Edrych ar y posibilrwydd o sefydlu prosiect pontio'r cenedlaethau yn eich cymuned. | 1. Gwylio'r fideos o Fwslimiaid ifanc o Gymru yn siarad am eu profiadau o Islamoffobia a chynnal rhai o'r gwersi yn yr ysgol.<br>2. Defnyddio #EinCymru wrth drydar (Twitter) ar Ddydd Gŵyl Dewi (nawddsant Cymru) a dathlu amrywiaeth ar draws y wlad. | Sefydlodd llawer o ysgolion brosiect llwyddiannus (gweler isod) lle byddai'r ysgolion yn ymweld â chartref gofal lleol yn rheolaidd, neu'n gwahodd pobl hŷn i'w hysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft. Gwelwyd manteision i'r plant a'r trigolion.<br>Soniodd ysgolion am newid yng nghanfyddiad disgyblion o Islam. Bu llawer o bobl hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch ar Twitter, gan gynnwys ysgolion, ASau, ACau a phenaethiaid elusennau. |

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Cynlluniau Llysgenhadon Hygyrch

Mae'r prosiect hwn yn sicrhau bod ein cynlluniau Llysgenhadon i ysgolion yn hygyrch i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn galluogi fod holl blant Cymru â'r un cyfle i ddysgu am ac i brofi eu hawliau. Trwy ymgynghori â phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, fe wnaethom ddatblygu cyfres o adnoddau hygyrch, fel bod pob plentyn yn gallu elwa o'r cynlluniau Llysgenhadon a dysgu am eu hawliau a'u Comisiynydd, a bod eu barn yn gallu helpu i lywio ein gwaith.

### Ymgynghori

Buon ni'n ymgynghori â mwy na 36 o leoliadau addysg, dros 50 o weithwyr addysg proffesiynol, a thros 150 o blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i ddarganfod beth fyddai'n helpu pob plentyn i ymgysylltu orau â'r cynllun.

### Datblygu Adnoddau

Defnyddion ni'r wybodaeth o'r ymgynghoriad hwn i weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc i gynhyrchu nifer o adnoddau hygyrch ar y cyd: mae'r rhain yn cynnwys posteri symbolau hawdd eu darllen am hawliau plant a'r Comisiynydd, ffilmiau am y cynlluniau Llysgenhadon a grewyd gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau AAA, a chanllaw dysgu ac addysgu o 10 gwers am hawliau plant, a luniwyd ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydyn ni hefyd wedi datblygu adnoddau gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a chyfres o 16 o ddarluniau i ddod â CCUHP yn fyw ar gyfer plant ifanc a dysgwyr gweledol. Fe wnaeth hyfforddiant proffesiynol yn ystod y flwyddyn alluogi ein staff ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth er mwyn sicrhau fod ein adnoddau a'n gwaith cyfranogaeth yn hygyrch i bawb.

>>>

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

### Canlyniadau

Roedd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cymryd rhan ym mhob un o'r tair Tasg Hawliau i'r Llysgenhadon, a hefyd yn gallu cymryd rhan yn Beth Nawr a defnyddio'r fersiwn darllen hawdd o'r pecyn gwaith gyda chyfoedion ar seiberfwlio. Cafwyd adborth cadarnhaol gan bob ysgol AAA a ddaeth i'r digwyddiadau, ac mae'r adborth a gasglwyd yn dangos bod pobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau addysg wedi ymgysylltu â'r adnoddau newydd hygyrch a'u mwynhau. Mae nifer y lleoliadau AAA sy'n rhan o'r cynllun wedi dyblu eleni, gydag 14 yn cymryd rhan erbyn mis Mawrth 2019. Mae hyfforddiant staff a blaenoriaethu adnoddau hygyrch wedi creu model cynaliadwy fydd yn golygu bod modd parhau i ddatblygu adnoddau i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cymryd rhan yn y cynllun Llysgenhadon. Bydd gwerthusiad llawn o gynlluniau Llysgenhadon y Comisiynydd yn 2020 yn asesu effaith y cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Y Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar gael am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i gynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael triniaeth annheg. Cysylltodd 671 o bobl â ni yn 2018-19, yn aml yn mynegi pryder am fwy nag un mater.

### Pa faterion cysylltodd pobl â ni amdanyn nhw?

| | |
|---|---|
| CAFCASS | 14 |
| Addysg | 408 (oedd yn cynnwys AAA 104, Cwynion 90, Cyngor 74, Lleoliadau 32, Bwlio 24) |
| Yr Amgylchedd | 54 |
| Iechyd | 58 (Cwynion 19, CAMHS 18, Darparu Gwasanaeth 10, Cyngor 8) |
| Tai | 28 (Cyngor 13, Lleoliadau 6) |
| Lloches | 2 |
| Cyfreithiol | 108 (Cyngor 101) |
| Materion arall yn ymwneud ag awdurdodau lleol | 14 |
| Yr Heddlu | 24 (Cyngor 12) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 370 (oedd yn cynnwys Cwynion 151, Cyngor 62, Darparu Gwasanaeth 36, Lleoliadau 30, Eiriolaeth 24) |

### Pwy fu'n cysylltu â ni?

Rhiant – 386
Aelod o'r cyhoedd – 33
Aelod o'r Teulu estynedig – 60
Plentyn neu berson ifanc – 35
Aelod etholedig – 6
Gweithiwr proffesiynol arall – 25
Gofalwr Maeth – 38
Gwasanaeth eiriolaeth – 13

### Roedd y canlyniadau'n cynnwys:

- Cynnig darpariaeth unigryw oedd yn ymyriad therapiwtig wedi'i lywio yn sgîl trawma ar gyfer y plentyn dan sylw ac un arall.
- Plentyn yn cael datganiad ac mewn darpariaeth addysgol gefnogol.
- Symud plentyn oedd ag anawsterau ymddygiadol i le mwy addas.
- Helpu gyda adolygu polisi ymddygiad mewn ysgol.
- Sicrhau cefnogaeth reolaidd i berson ifanc oedd â salwch cyfyngus.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

Er ein bod ni'n gwneud popeth posibl i helpu achosion unigol, mae yna adegau lle bod poblemau systematig neu ddiffyg canllawiau yn golygu na fedrwn ddal asiantaethau penodol yn atebol yr adeg hynny. Mae'r tîm polisi wedyn yn edrych ar y materion hynny er mwyn gweld os oes modd dylanwadu am newid ehangach. Mae ein gwaith ar bontio yn y maes iechyd a'n gwaith ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ein cynllun gwaith 2019l20 yn enghreifftiau o'r gwaith yma.

**Adborth o achosion:**

"Roedd y swyddog yn wych wrth helpu. Roedden nhw'n bositif ac roedd ei sylwadau yn amlwg wedi selio ar brofiad a dealltwriaeth. Dwi'n ddiolchgar am y genfogaeth."

"Roedd y gwaith wnaeth swyddfa'r Comisiynydd o'r radd flaenaf wnaeth arwain at ganlyniad positif i'r plentyn."

"Ro'n ni'n teimlo fod pethau wedi cyrraedd man terfyn nes mod i'n cysylltu gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant. Rwy'n hynnod ddiolchgar o'r gefnogaeth ddaeth."

Mae ein paneli ymgynghorol dal yn cael effaith gadarnhaol ar ein gwaith. Dyma eu sylwadau.

# Barn ein paneli ymgynghorol

Mae ein paneli ymgynghorol o oedolion a phobl ifanc yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn i drafod agweddau ar ein gwaith. Maen nhw bellach wedi dod yn rhan annatod o'n strwythur llywodraethu – yn cefnogi, yn cynghori ac yn herio fel sy'n briodol. Ein nod yw ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ein gwaith gydag aelodau'r panel, gan sicrhau bod y platfform yma'n rhoi cyfle ystyrlon i bobl ifanc ein galw i gyfrif am yr hyn rydyn ni'n addo ei gyflawni.

Eleni, fe gynhalion ni werthusiad o'n profiad gyda'r garfan gyntaf o aelodau. Dyma ddetholiad o'r adborth, ac rydyn ni wedi'i ddefnyddio i ddiweddaru cylch gorchwyl y paneli:

- Roedd yr holl aelodau'n credu eu bod yn cael gwrandawiad, a bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifri.
- "Roedd yn dda bod Sally'n gwneud, 'Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni', ac roedd yn dangos bod ein barn yn gwneud gwahaniaeth. Roedd Sally hyd yn oed yn cymryd sylwadau bach ac yn gwrando arnyn nhw."
- Wrth siarad am weithio gyda'r panel oedolion, dywedodd aelod ifanc: "Roedd cael barn rhywun hŷn a phroffesiynol yn agor drysau newydd i'n meddyliau a'n safbwyntiau ni."
- "Rhoddodd y cyfarfod (gyda'r panel oedolion) lawer o hyder i fi. Wrth weld yr oedolion yn sgwrsio gyda Sally fe ges i hwb i gyfrannu mwy o'm barn mewn cyfarfodydd. Fe welais i nhw fel rhyw fath o esiampl ar sut mae cyflwyno barn mewn cyfarfodydd."

Dyma feddyliau Cadeirydd ein panel oedolion, Margaret Provis:

"Mae wedi bod yn flwyddyn dda i'n paneli. Rydyn ni wedi cael cyfle i gynghori Sally ar agweddau allweddol o'i gwaith. Mae pawb ohonon ni wedi mwynhau sesiynau'r paneli ar y cyd, ac rwy'n gwybod ein bod ni i gyd yn teimlo ein bod ni'n dysgu cymaint oddi wrth ein gilydd pan fyddwn ni'n dod ynghyd. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio ac at weithio gyda'r Comisiynydd a'i staff."

Y 5 egwyddor o Dull Hawliau Plant yw Ymgorfforri hawliau plant, Cydraddoldeb a Di-wahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad ac Atebolrwydd.

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

## Y Ffordd Gywir yw ein fframwaith Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant yng Nghymru.

Mae gennym ni dri fframwaith: un ar gyfer cyrff cyhoeddus; un ar gyfer lleoliadau addysg; ac un ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cysylltu hawliau plant â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae pob un o'r tri fframwaith yn cynnwys yr un pum egwyddor gwahanol sy'n gallu helpu sefydliadau i flaenoriaethu a hybu hawliau plant yn eu gwaith, ac yn y pen draw i wella'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i blant a phobl ifanc yng Nghymru.



Ymweliad Sally Holland i Ganolfan Plant Mencap yn Belfast

# Y 5 Egwyddor

## Gwreiddio hawliau plant

**sicrhau bod hawliau plant yn ganolog wrth gynllunio a darparu gwasanaethau**

Yn ymarferol, gallai hyn olygu cyfeirio'n benodol at hawliau plant mewn cynllun corfforaethol, rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant hawliau plant ar gyfer staff, neu ddatblygu strategaeth sy'n esbonio sut bydd y sefydliad yn cymryd hawliau plant o ddifri.

## Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu

**sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod**

. Yn ymarferol, gallai hyn olygu casglu data ynghylch llwyddiant y sefydliad i ddarparu ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc a defnyddio hynny i gynllunio gwelliannau, gan ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd sy'n hygyrch i bob plentyn, a hyfforddi staff ar eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

## Grymuso plant

**gwella galluoedd plant fel unigolion fel eu bod mewn sefyllfa well i fedru manteisio ar eu hawliau**

Yn ymarferol, gallai hynny olygu sicrhau bod gan blant y sgiliau i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a dweud wrth blant am y cyfleoedd sydd ganddyn nhw i leisio barn neu ddylanwadu ar ymarfer.

## Cyfranogiad

**gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn**

Gallai hyn olygu datblygu strategaeth gyfranogiad unigryw sy'n nodi'n glir sut bydd y sefydliad yn cynnwys plant yn ei waith, a chynnwys plant yn uniongyrchol wrth ddylunio a gwerthuso'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

## Atebolrwydd

**dylai sefydliadau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau**

Gallai hynny olygu darparu cyfleoedd clir i bobl ifanc herio penderfyniadau, neu sicrhau bod plant yn gwybod sut mae gwneud cwynion a galw'r sefydliad i gyfrif.

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

## Beth rydyn ni wedi'i wneud eleni

Rydyn ni wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau eleni i'w helpu i wella sut maen nhw'n darparu gwasanaethau i blant, yn unol â Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

### Cyrff Cyhoeddus a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant

**Heddlu De Cymru**
Fe gyflwynon ni sesiwn hyfforddi gyda Chomand Aur Heddlu De Cymru: uwch arweinyddion yr heddlu yno. Maen nhw wedi ymrwymo i wreiddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith, a'u bwriad yw datblygu siarter hawliau plant ar gyfer pobl ifanc, yn dangos iddyn nhw sut byddan nhw'n cynnal ac yn hybu eu hawliau dynol. Rydyn ni hefyd wedi'u helpu i ddylunio'u strategaeth gyfranogiad, gan sicrhau bod eu dull o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn cynnwys egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

**HMP a YOI Parc**
Rydyn ni wedi gweithio gyda Charchar y Parc i'w helpu i wreiddio hawliau plant yn eu gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maen nhw wedi gwneud sawl gwelliant seiliedig ar hawliau plant.

Yn gyntaf, mae'r holl bobl ifanc yng Ngharchar y Parc yn cael eu dysgu am eu hawliau ac am hawliau pobl eraill. Maen nhw'n cael eu hannog i fod yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys dysgu am hawliau yn eu cyfnod sefydlu. Mae hawliau unigol yn cael eu harddangos ar draws yr uned pobl ifanc, ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn sgyrsiau gyda'r bobl ifanc a'r staff.

O ran eu cyfranogiad, anogir pob person ifanc i rannu eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ym mhob rhan o'r Uned. Yn yr amgylchedd yma, mae barn pob person ifanc yn cael gwrandawiad, ac mae ganddyn nhw fewnbwn llawer cryfach i fywyd yr uned.

Mae'r staff uwch yn teimlo bod y berthynas rhwng y staff a'r bobl ifanc wedi gwella, a bod y bobl ifanc yn ymgysylltu'n fwy â'u haddysg o ganlyniad.

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

### Byrddau Iechyd

Ym mis Mehefin 2018 fe gynhalion ni ail seminar Cymru Gyfan ar Iechyd Plant, mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd hynny'n gyfle i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ledled Cymru ddod at ei gilydd i drafod hawliau plant mewn lleoliadau iechyd.

Yn bresennol roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC).

Bu'r rhai oedd yn bresennol yn trafod y cynnydd a wnaed ers ein Seminar Iechyd gyntaf, a gynhaliwyd y flwyddyn flaenorol, a'u cynlluniau i barhau i wella'u ffyrdd o sicrhau bod hawliau plant yn rhan annatod o'u gwaith. Roedd y cynnydd yn cynnwys ymgynghori'n eang â phlant, datblygu siartrau hawliau plant a rhestrau o addunedau, cynlluniau gweithredu ar gyfer newid ar lefel y bwrdd ac archwilio ymwybyddiaeth staff o hawliau. Fe glywson ni hefyd fod ABM Youth, panel ieuenctid ABMU, wedi adrodd yn uniongyrchol i'r bwrdd gweithredol.

Gwnaeth sawl bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd gynnydd ardderchog o ran datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn 2018-19, yn dilyn y seminar, gan gynnwys bwrdd iechyd ieuenctid newydd, deinamig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn mabwysiadu'r safonau cyfranogiad ar gyfer Cymru.

### Ysgolion

Bu 6932 o blant a phobl ifanc a 391 o athrawon yn cymryd rhan yn ein harolwg i fesur i ba raddau mae disgyblion yn profi eu hawliau yn yr ysgol. Seiliwyd cwestiynau'r arolwg ar bum egwyddor ein Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant. Cafodd pob ysgol a gwblhaodd yr arolwg adroddiad dienw personol, yn dangos sut roedd atebion eu disgyblion yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

>>>

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

Defnyddiodd ysgolion eu hadroddiadau i bennu targedau hawliau plant ar gyfer y flwyddyn oedd yn dod. Y flwyddyn nesaf byddwn ni'n cynnal yr un arolwg, fel bod ysgolion sy'n dychwelyd yn gallu mesur eu cynnydd, ochr yn ochr â helpu ysgolion newydd i weld yr hyn sy'n dod i'r amlwg am y tro cyntaf.

Un o negeseuon allweddol y canlyniadau oedd bod pobl ifanc yn yr ysgol uwchradd yn teimlo bod ganddyn nhw lai o siawns i fod yn rhan o benderfyniadau yn eu hysgol, o gymharu â phlant ysgolion cynradd. O ganlyniad, bydd ein swyddfa'n gwneud darn penodol o waith y flwyddyn nesaf i edrych ar effeithiolrwydd cynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd.

**"Roedd yr arolwg hawliau yn offeryn ffantastig i holi'r holl ysgol ac i ddarganfod mwy am beth mae'r disgyblion a'r staff yn gwybod, neu ddim yn gwybod, am hawliau. Mae'r arolwg wedi galluogi ein llysgenhadon edrych nôl dros eu gwaith ar hyd y flwyddyn ac yn eu helpu i benderfynu beth sydd angen ffocws y flwyddyn nesa'."** Hannah O'Neill, athrawes Gelf a chyd-lynydd Senedd a llais y disgybl, Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr.

**"Roedd canlyniadau'r arolwg Y Ffordd Gywir i Addysg yn dangos fod y ffocws ar lais y plentyn yn ein hysgolion yn cael effaith ar ddisgyblion. Maent yn deall ac yn adnabod y cyfleon maent yn derbyn i ddylanwadu ar eu haddysg ond hefyd y dylanwad sydd ganddynt dros ddatblygu ein hysgol newydd. Mae ein gwaith ar ddatblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru hefyd yn cael effaith bositif ar ddisgyblion ac fe wnaeth yr arolwg dynnu sylw at hyn. Mae'r canlyniadau yn ffordd wych o ddathlu llwyddiant datblygu ein cwricwlwm a'r daith ry' ni'n cymryd fel ysgol, sy'n cynnwys plant yng nghanol popeth ry'n ni'n gwneud."**
Catherine Kucia,Pennaeth Ysgol Gymradd Jubillee Park.

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Eleni, ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fe gyhoeddon ni becyn offer ar-lein a chanolbwynt gwybodaeth gysylltiedig ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a chyrff sydd o dan ddyletswydd yn sgîl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ei nod yw helpu BGCau a chyrff cyhoeddus perthnasol i wella'u gwasanaethau i blant, yn unol â Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, wrth iddyn nhw newid eu ffordd o weithio o dan y Ddeddf. Mae'n gwneud hyn trwy gysylltu pob un o egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant â'r Pum Ffordd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fe gynhalion ni ddwy sesiwn gyda BGCau eleni i ystyried y pecyn offer a'u helpu i gynllunio gwelliannau.

Roedd aelodau uwch o'r sefydliadau sy'n rhan o'r BGC, fel y cyngor lleol, y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Heddlu, ac eraill yn bresennol yn y ddwy sesiwn, gyda BGC Wrecsam a BGC Bro Morgannwg. Yn Wrecsam bu'r Senedd Ieuenctid yn cynnal y sesiwn ar y cyd.

### Gwaith cyffredinol yn cynyddu ymwybyddiaeth

Ym mis Medi 2018 fe gynhalion ni weithdy ar Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer gweithwyr proffesiynol rhyngwladol yn Arsyllfa Plant a Phobl Ifanc Prifysgol Abertawe.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gydag EAS, consortiwm addysg Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Buon ni'n gweithio gydag ysgolion arloesi llesiant o'r ardal, ac yn datblygu adnodd hyfforddi iddyn nhw ei raeadru yn eu clwstwr.

Fe wnaethon ni hefyd ddylanwadu gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar eu 'Age Appropriate Design Code' i sicrhau fod dull seiliedig ar hawliau plant yn ganolog i'w ddatblygiad.


>>>

# Y Ffordd Gywir a'n Ffordd Gywir ni

## Ein Ffordd Gywir Ni

Dyma sut rydyn ninnau'n mabwysiadu egwyddorion 'Y Ffordd Gywir' yn ymarferol:

1. **Gwreiddio hawliau plant:** mae CCUHP yn sylfaen ar gyfer ein holl waith ac rydyn ni'n parhau i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, er mwyn iddyn nhw fabwysiadu dull gweithredu tebyg. Mae ein gwaith polisi a dylanwadu yn sicrhau bod cyfreithiau, polisïau ac ymarfer ar draws holl lefelau'r Llywodraeth yng Nghymru yn amddiffyn hawliau plant.
2. **Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu:** Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn chwarae rôl hanfodol o safbwynt cyflawni'r egwyddor hon trwy helpu plant unigol a'u teuluoedd sy'n teimlo eu bod yn methu troi at neb arall gyda'u problemau. Trwy brosiectau allweddol – y mae disgwyl i bob un ohonynt gael eu cynllunio gydag asesiad effaith lawn ar gydraddoldeb – rydyn ni'n ymdrechu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chamwahaniaethu yn uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.
3. **Grymuso plant:** Mae ein gwaith cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod plant eu hunain yn cael mynediad at wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.
4. **Cyfranogiad:** Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'n tîm o staff i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Fel tîm, rydyn ni'n ymgysylltu â phlant bron bob dydd o'r wythnos. Ein nod yw sicrhau bod ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch. Mae barn a safbwyntiau plant yn llywio'n holl brosiectau, ac rydyn ni wedi gwrando ar farn mwy na 10000 o blant a phobl ifanc a gyflwynwyd i ni i'n helpu i greu'r cynllun tair blynedd hwn.
5. **Atebolrwydd:** Mae buddsoddi mewn dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn golygu ein bod ni'n gallu canolbwyntio o ddifri ar anghenion penodol plant, ac mae'n sicrhau ein bod ni'n creu llwyfan lle gall plant a phobl ifanc ein galw i gyfrif o ran y pethau rydyn ni wedi addo eu cyflawni. Mae ein paneli ymgynghorol o bobl ifanc yn rhoi cefnogaeth strategol i'r Comisiynydd a'r tîm ac mae cynlluniau ar waith i sicrhau bod y Comisiynydd yn dod yn atebol i Senedd Ieuenctid Cymru, sy'n cael ei hethol yn ddemocrataidd.



Rwyf wrth fy moddei bod wedi sicrhau 'sylw dyledus' i hawliau plant yn y ddeddfwriaeth newydd anghenion dysgu ychwanegol.

# Ein cerdyn adroddiad

## Y tirlun

Mae'r ymgynghoriad sylweddol a gynhaliwyd gennym eleni gyda mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc a'r adolygiad o'r dystiolaeth oedd yn rhagflaenu'r gwaith hwnnw yn amlygu i ni y lliaws o faterion sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Fy her innau bob amser yw penderfynu ar y ffocws gorau ar gyfer ymdrechion fy nhîm bychan o staff. Mae ein rhaglen waith yn cael ei phenderfynu'n glir gan farn y plant a'r bobl ifanc y buom ni'n ymgynghori â nhw, ond ar adegau mae angen i mi godi llais a herio mewn meysydd eraill. Eleni, fe'n gwelwyd yn herio penderfyniadau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt blaenoriaethau'r gyllideb a'r diffyg ymddangosiadol o ran dull trawslywodraethol o ddiogelu hawliau plant wrth wneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Codwyd pryderon gyda fi hefyd ynghylch safon asesiadau effaith ar hawliau plant – yr union offeryn a luniwyd i sicrhau bod polisïau Llywodraeth Cymru yn diogelu hawliau plant.

# Ein cerdyn adroddiad

Er gwaethaf cyfyngiadau fy nghylch gorchwyl cyfreithiol, rwyf hefyd wedi gweithio ar faterion heb eu datganoli, gan gynnwys y ffaith bod pobl ifanc yng Nghaerdydd yn gorfod aros yn llawer rhy hir cyn cael cyfweliadau ceisio lloches wyneb yn wyneb, ac mai yn Croydon yn unig yr oedden nhw'n cael cynnig apwyntiadau. Fe wnes i ymyrryd trwy ysgrifennu at y Swyddfa Gartref ar eu rhan, ac arweiniodd hynny at Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno i gynnal apwyntiadau yng Nghaerdydd. Treuliwyd amser hefyd yn gweithio gyda'm cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig er mwyn herio mesurau cyni niweidiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Fy null gweithredu fel Comisiynydd bob amser fu ymateb i Lywodraeth Cymru fel ffrind beirniadol – herio'n gadarn yn ôl y galw, ond croesawu a chydnabod datblygiadau positif. Rwyf wedi croesawu'n gynnes uchelgais y Llywodraeth o ran sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad cyfartal rhag cosb gorfforol ac eithrio ymadawyr gofal ledled Cymru o atebolrwydd treth y cyngor, ond mae meysydd sy'n destun pryder mawr yn parhau. Nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig yng nghyswllt rhai o argymhellion adroddiad blynyddol y llynedd, gan gynnwys darparu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn ysgolion a'r cynnig gofal plant, er bod trafodaethau gyda swyddogion wedi parhau. Er nad wyf fi'n cyflwyno argymhellion newydd yn y meysydd hyn yn adroddiad eleni, bydd fy nhîm yn parhau i ddilyn y materion polisi hyn a phwyso am newidiadau fydd yn cynnal ac yn cefnogi hawliau plant. Bydd y diweddariadau chwarterol a gyhoeddir ar fy ngwefan yn parhau i ddangos y camau rwyf wedi'u cymryd a'r cynnydd yn y meysydd hyn. Trafodir y rhain yn rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, Gweinidogion, ac aelodau o Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn cynnal momentwm a chreu newidiadau amlwg sydd o fudd i blant.

Er mai Brexit sydd wedi llenwi'r penawdau eleni, y tu ôl i holl sŵn Brexit mae heriau pwysig yn parhau o safbwynt hawliau plant, ac rwyf am ddefnyddio'r adroddiad hwn i dynnu sylw atynt. Mae'r cerdyn adroddiad hwn yn amlygu'r heriau hynny, y camau rwyf wedi'u cymryd gyda'm tîm i ddylanwadu ar newid, a'r hyn rwy'n ei ddisgwyl gan y Llywodraeth.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## GOFAL PRESWYL I BLANT SYDD Â'R ANGHENION MWYAF CYMHLETH

### Y materion allweddol

Yn adroddiad blynyddol llynedd, fe amlygais yr angen am gomisiynu llety arbenigol ar gyfer y nifer bach o blant sydd ag anghenion cymhleth yn gymdeithasol, o ran iechyd meddwl ac o ran ymddygiad, gan nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer ar hyn o bryd. Yn aml mae gan y plant hyn anghenion iechyd meddwl, ond nid ydynt yn bodloni'r meini prawf diagnostig penodol ar gyfer gofal yn un o ddau gyfleuster iechyd meddwl cleifion mewnol Cymru ar gyfer plant. Yn aml, mae'r unig opsiwn gofal y tu allan i Gymru, yn Lloegr neu'r Alban, mewn cyfleusterau preifat drud dros ben, ymhell o gartref y plentyn, fel ei fod yn anodd iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth iechyd meddwl lefel ddiogelu isel i gleifion mewnol yng Nghymru.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi ymweld eto ag uned cleifion mewnol Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru yn Abergele ac uned cleifion mewnol Tŷ Llidiard ym Mhen-y-bont, ynghyd â Chanolfan Ddiogel Hillside i Blant, ac rwyf wedi cwrdd â Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC), sy'n comisiynu'r ddwy uned cleifion mewnol, a Chadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac ysgrifennu atyn nhw ynghylch yr angen am sefydlu'r ddarpariaeth hon. Rwyf hefyd wedi cwrdd â sawl pennaeth gwasanaethau plant mewn sawl awdurdod lleol, Prif Swyddogion Gweithredol a Chadeiryddion y Byrddau Iechyd. Rwyf wedi codi'r mater mewn cyfarfodydd gyda Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd, a Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog.

Ym mis Tachwedd 2017, fe rois i dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch plant â phrofiad o ofal. Roedd eu hadroddiad hwy yn 2018 yn adleisio fy mhryderon yn y maes hwn, ac yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru lywio a chyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer comisiynu a rheoli'r sbectrwm llawn o leoliadau ar gyfer plant mewn gofal.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Mae fy nhîm a minnau wedi bod yn aelodau gweithredol o Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Llywodraeth ar Ofal Preswyl, y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant, a hefyd Bwrdd Rhaglen a Grŵp Cyfeirio Arbenigol y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP).

Byddaf fi'n parhau i ddod â rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i archwilio sut gall gwasanaethau gomisiynu'r math pwysig yma o ddarpariaeth ar y cyd. Byddaf hefyd yn cwrdd ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cael hyd i ffordd ymlaen, ar ôl dod â swyddogion ynghyd yn flaenorol i gael y trafodaethau hyn ym mis Hydref 2018.

## Cynnydd ac argymhellion

Cymerwyd nifer o gamau cadarnhaol ymlaen o ran arferion comisiynu, fel y gwaith sy'n digwydd yn Ne-ddwyrain Cymru i ddod â phlant yn ôl i gartrefi ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r cartrefi hyn yn darparu ar gyfer y plant sydd ar ben uchaf y continwwm anghenion.

Mae Cronfa Trawsffurfio Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Gofal Integredig yn darparu adnodd ariannol y gellir ei ddefnyddio at ddibenion creu'r ddarpariaeth hon. Mae'r rhain i'w croesawu, wrth gwrs, ond nid yw'r llifoedd ariannu hyn yn cwmpasu Cymru gyfan, ac nid yw'r arian ar hyn o bryd wedi'i neilltuo at y diben hwn.

Mae'n destun pryder mawr bod y ddwy uned CAMHS i gleifion mewnol yng Nghymru fel ei gilydd yn methu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc y bernir bod eu hymddygiad yn achosi 'gormod o risg'. Yn ogystal â hyn, nid yw plant o Gymru yn derbyn gofal yng nghyfleuster Regis Healthcare bellach, gan y barnwyd nad yw'n ddiogel. Rwy'n falch nad yw'r plant hyn mewn lleoliadau anniogel bellach, ond mae'r sefyllfa'n golygu gostyngiad pellach yn argaeledd lleoliadau addas.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Argymhellion:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd, ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau iechyd meddwl presennol i gleifion mewnol yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yn ddiogel yno.

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Mae'r astudiaeth achos sy'n dilyn yn dangos y sefyllfa pan na fydd pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth o ran eu hymddygiad yn 'ffitio' i'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ac yn gallu cael eu lleoli mewn mannau amhriodol.

Cysylltodd Plentyn C, sy'n 16 oed, â'n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor o ysbyty lle roedd wedi cael ei gadw o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd Plentyn C wedi cael diagnosis o anhwylder iechyd meddwl.

Rhoddwyd Plentyn C ar ward oedolion yn yr ysbyty, a chael goruchwyliaeth gan ddau aelod o staff asiantaeth o uned iechyd meddwl yr oedd Plentyn C wedi cael ei leoli ynddi o'r blaen. Ni allai Plentyn C ddychwelyd i'r uned oherwydd bod y staff yno'n honni eu bod yn methu rheoli ymddygiad y person ifanc.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Ar ôl bod ar ward oedolion am wythnosau lawer, symudwyd Plentyn C yn y pen draw i ward fwy diogel yn dilyn ein hymyrraeth. Fodd bynnag, roedd pryderon yn parhau ynghylch addasrwydd y ward oedolion. Roedd ein pryder gymaint fel ein bod wedi rhannu sefyllfa Plentyn C gyda Gweinidogion y Llywodraeth yn enghraifft o'n pryderon ynghylch diffyg darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth o ran ymddygiad.

Mae'r ddwy uned cleifion mewnol sy'n ymwneud â'r achos hwn wedi dweud wrthym ni bod ganddyn nhw enghreifftiau o sawl achos tebyg.

## Barn plant a phobl ifanc

Dyfyniadau gan bobl ifanc mewn uned breswyl iechyd meddwl:

"Dylai fod llety ar gyfer plant / pobl ifanc sy'n methu mynd adre"

"Fe es i i'r ysbyty 3 gwaith, ond fe ges i fy anfon allan heb gamau dilynol bob tro"

"Dyw pawb ddim yr un fath! Dylai cynlluniau triniaeth pobl gael eu creu ar gyfer pob unigolyn, achos mae angen gwahanol fathau o ofal ar rai pobl. Dylai pawb gael rhoi barn, gan gynnwys fi"

"Gwneud yn siwˆr bod yr HOLL staff eisiau gweithio ym maes iechyd meddwl gyda phobl ifanc, a ddim yno ar gyfer yr arian neu'r swydd yn unig. Gwneud triniaeth yn addas i unigolion. Bod staff yn gwrando mwy ar farn pobl ifanc ac yn rhoi cyfle iddyn nhw brofi eu hunain. Mwy o addysg iechyd meddwl mewn ysgolion. Cael gwneud eich penderfyniadau eich hun ynghylch triniaeth dros 16 oed"

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## GADAEL GOFAL

### Y materion allweddol

Yn 2016 fe gyhoeddais i adroddiad, **'Y Gofal Cywir'**, am brofiadau pobl ifanc oedd yn byw mewn gofal preswyl. Un o'r pedwar argymhelliad, a gafodd eu derbyn yn llawn gan Brif Weinidog Cymru, oedd estyn y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' i bob plentyn mewn gofal, nid dim ond y rhai mewn lleoliadau gofal maeth. Byddai hynny'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad at gefnogaeth i'w helpu i bontio o ofal i fyw'n annibynnol.

Yn 2017 fe gyhoeddais fy adroddiad **'Breuddwydion Cudd'**, oedd yn ategu ymhellach yr angen am gefnogi ymadawyr gofal hyd at 25 oed, p'un a ydynt mewn addysg neu hyfforddiant neu beidio. Roedd yr adroddiad hefyd yn galw am eithrio Ymadawyr Gofal o daliadau Treth y Cyngor, gan eu bod yn byw'n annibynnol yn llawer cynharach na'r rhan fwyaf o bobl ifanc eraill, ac fel arfer heb deulu i helpu os bydd anawsterau ariannol yn codi.

Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu llawer o rwystrau, gan gynnwys risg uwch o ddigartrefedd a thlodi, ond gyda'r gefnogaeth gywir, gallan nhw fynd ymlaen i fyw bywydau llwyddiannus, llawn boddhad.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Ers cwblhau ymweliadau â phob un o'r 22 awdurdod lleol yn 2017 a gwneud ymholiadau dilynol ynghylch cynnydd yn 2018, rydym wedi parhau i fonitro cynnydd trwy ein gwaith achosion a mynychu gweithgorau allanol, gan gynnwys y Fforwm Gadael Gofal, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gofal Preswyl a'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn dal yn flaenoriaeth, ac yn defnyddio'n presenoldeb ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gofal Preswyl i sicrhau bod estyn cymorth yn parhau'n ffocws allweddol yn y cynllun gweithredu. Mae fy nhîm hefyd wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru yn annibynnol y tu allan i'r grŵp hwnnw, i annog cynnydd o ran y materion pwysig sydd yn y cynllun gweithredu.

## Cynnydd ac argymhelliad

Rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth wedi ymgynghori ar ei bwriadau i eithrio pob Ymadawr Gofal hyd at 25 oed o Dreth y Cyngor, a bod y newidiadau hynny'n dod i rym o fis Ebrill 2019. Roedd tua hanner yr awdurdodau lleol eisoes wedi cymryd y cam hwnnw ers cyhoeddi fy adroddiad dilynol **Breuddwydion Cudd** yn 2018.

Mae'r cyllid ar gyfer Cronfa Dewi wedi parhau, ac wedi cael ei ddyblu eleni i gynnwys cefnogaeth ar gyfer digartrefedd ieuenctid, a chafodd cannoedd o bobl ifanc gymorth gydag eitemau fel offer a gwisg swyddogol ar gyfer y gwaith a gwersi gyrru.

Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad yn llawn ynghylch yr angen am estyn cefnogaeth trwy Ymgynghorwyr Personol i bawb hyd at 25 oed sy'n gadael gofal, a darparu cyllid i awdurdodau lleol at y diben hwnnw, mae'r diffyg newid yn y gyfraith i sicrhau'r ymrwymiad hwn yn golygu y gallai'r hawl hon fod yn fregus wrth i gyllid a blaenoriaethau newid yn y dyfodol.

Ni fu fawr ddim cynnydd gweladwy o ran estyn 'Pan Fydda i'n Barod' i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl, er mai dyna un o'r rhesymau gwreiddiol dros sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl.

Ym mis Mawrth 2019 fe ysgrifennais at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu sylw at fy rhwystredigaeth bod cyn lleied o gynnydd tuag at sicrhau'r hawliau hyn.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

### Argymhellion:

Dylai Llywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal â hawl i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mwy pendant i estyn hawliau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn darparu lefel gyfatebol o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hyn ar lefel statudol.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Mae'r canlynol yn amlygu'r ystod o faterion y daeth pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol â nhw at ein sylw mewn perthynas â phobl ifanc oedd yn gadael gofal. Fe fuon ni'n rhoi cyngor i bob galwr, a lle roedd hynny'n briodol, yn ymyrryd i gefnogi datrys y mater.

- Cysylltodd tadcu â ni yn pryderu am y diffyg cefnogaeth i'r person ifanc yn ei ofal gael hyd i lety addas. Roedd yn credu nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi sylw i anghenion iechyd meddwl y person ifanc a lefel eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain. Roedd y tadcu'n pryderu cymaint am y sefyllfa nes ei fod wedi bwriadu gwneud ei hun yn 'ddigartref' o'r fflat yr oedden nhw'n ei rhannu, gan orfodi'r awdurdod lleol i droi'r person ifanc allan a chael hyd i lety arall addas ar eu cyfer.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

- Cysylltodd person ifanc oedd wedi gadael gofal â ni yn nodi ei bod heb dderbyn unrhyw gefnogaeth wrth symud i fyw'n annibynnol, heb arian o gwbl, ac nad oedd eu Cynorthwy-ydd Personol a'u Gweithiwr Cymdeithasol yn dychwelyd eu galwadau.

- Cysylltodd person arall oedd wedi gadael gofal â ni, yn pryderu am y diffyg cefnogaeth ariannol briodol gan y gwasanaethau cymdeithasol. Doedden nhw ddim wedi derbyn eu lwfans dillad gaeaf nac wedi cael cynnig eiriolydd annibynnol.

- Cysylltodd person ifanc oedd wedi gadael gofal ac a oedd bellach yn astudio yn y Brifysgol â ni i gael cyngor ynghylch gwarantydd ar gyfer llety preifat ar rent. Roedd yn bwriadu rhannu tŷ gyda myfyrwyr eraill ac roedd wedi gofyn i'w gynghorydd personol am gymorth, ond nid oedd unrhyw gyngor defnyddiol wedi cael ei rannu.

- Roedd person ifanc oedd wedi gadael gofal, ac a fu'n derbyn arian ar gyfer cwrs HND 2-flynedd, wedi cael ar ddeall y byddai'n gorfod talu am y flwyddyn gyntaf yn y Brifysgol ei hun. Rhoeson ni wybodaeth am gronfa Dydd Gŵyl Dewi.

- Cysylltodd person ifanc oedd wedi gadael gofal ac a oedd ag anghenion ychwanegol â ni; roedd wedi bod mewn lleoliad maeth 'tu allan i'r sir' am 15 mlynedd. Nid oedd bellach yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd yn destun dadl rhwng dau awdurdod lleol ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Barn plant a phobl ifanc

Dyfyniadau o ddigwyddiad ymadawyr Lleisiau o Ofal yn haf 2018

"Mae angen cefnogaeth arna i o hyd ar ôl cyrraedd 18"

"Rydw i'n teimlo wedi fy llethu ac wedi ynysu mewn llety byw'n annibynnol. Does gen i ddim sgiliau coginio na chadw'n iach, a sut mae cofrestru gyda deintydd, er enghraifft?"

* Bod â chartref preswyl ar gyfer pobl dros 18 oed, yn hytrach na symud nhw o'r cartref preswyl unwaith maen nhw'n 18

"Gwneud y cynllun "pan fydda i'n barod" yn glir i bawb – gweithwyr cymdeithasol, Ymgynghorwyr Personol, rheolwyr preswyl, pobl ifanc"

"Sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng pobl ifanc mewn gofal maeth a gofal preswyl"

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## DILEU'R ELFEN O ELW O WASANAETHAU GOFAL PLANT

### Y materion allweddol

Mae llawer o gartrefi gofal preswyl plant Cymru yn gweithredu yn y sector preifat, ac mae rhyw draean o'r plant o Gymru sydd mewn gofal maeth yn cael eu lleoli gydag asiantaethau annibynnol. Yn ystod fy nhrafodaethau gyda phobl ifanc, mae rhai wedi bod yn boenus o ymwybodol o gost ariannol eu lleoliadau, ac yn anghyfforddus gyda'r syniad bod "elfen o wneud elw" yn eu hangen am ofal a chymorth. Mae'r diffyg lleoliadau addas yng Nghymru yn aml yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn comisiynu lleoliadau annibynnol, preifat, heb warant y bydd yr elw'n cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, a diffyg tryloywder o ran sut mae arian yn cael ei wario yng nghyswllt gwasanaethau therapiwtig a gofal.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Yn 2017, fe wnes i argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gynnwys plant a phobl ifanc yn well wrth ddylunio a chyflwyno'u gwasanaethau, er mwyn cynyddu'r ystod o ofal nid-er-elw. Ategodd adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn 2018 ar blant oedd yn derbyn gofal neges argymhelliad fy adroddiad blynyddol yn 2017 ynghylch pennu lefelau elw ym maes gofal a sicrhau bod plant yng ngofal yr awdurdod lleol "yn cael eu gweld fel dinasyddion yn hytrach na chleientiaid". Galwodd y Pwyllgor hefyd ar Lywodraeth Cymru i lywio a chyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer comisiynu a rheoli'r sbectrwm llawn o leoliadau ar gyfer plant mewn gofal.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Cynnydd ac argymhelliad

Yn fuan bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyhoeddi adolygiad thematig o Gartrefi Plant yng Nghymru, a fydd yn darparu gwybodaeth i'w chroesawu ynghylch nifer y cartrefi ym mherchnogaeth awdurdodau lleol a chartrefi preifat yng Nghymru. Mae fy swyddfa wedi cael ei chynrychioli mewn rôl ymgynghorol yn y gwaith hwn, sydd â ffocws clir ar hyrwyddo ac estyn gallu plant i wireddu eu hawliau yn y lleoliadau hyn. Er ei fod yn bwysig peidio ag amharu ar y sector trwy newid polisi yn sydyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau datblygu modelau gofal amgen er mwyn sicrhau mwy o gynnydd yn nifer y gwasanaethau gofal nid-er-elw.

### Argymhelliad:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf at leihau ac yn y pen draw ddileu elw o wasanaethau gofal plant, heb niweidio trefniadau gofal presennol plant a phobl ifanc.

## Barn plant a phobl ifanc

Dyfyniadau o ddigwyddiad Lleisiau o Ofal: Awst 2018

"Mae loteri côd post gwahanol siroedd yn ofnadwy, mae rhai pobl yn cael gwasanaethau da mewn un man, ond does fawr ddim gwasanaeth, os o gwbl, mewn ardaloedd eraill"

# Amddiffyniad Rhag Ecsbloetio a Thrais

## CAM-DRIN AC ECSBLOETIO RHYWIOL – CANOLFANNAU ATGYFEIRIO YMOSODIADAU RHYWIOL (SARCS)

### Y materion allweddol

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf yn 2017/2018 fe alwais ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan ddarpariaeth Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ardal pob bwrdd iechyd fynediad 24/7 at rota o bediatregwyr ac archwilwyr meddygol fforensig a hyfforddwyd yn briodol, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros am oriau lawer, neu hyd yn oed am ddyddiau i gael archwiliad, a bod digon o wasanaethau cwnsela ac adferiad i ddioddefwyr ar gael ledled Cymru.

Roedd yr alwad hon yn dilyn pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr uwch, sy'n dod i'm sesiwn bord gron reolaidd ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, ynghylch trefniadau staffio ac ariannu ar gyfer canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol ledled Cymru, ac eithrio yn y gogledd. Rhannwyd enghreifftiau dienw o achosion gyda ni lle bu'n rhaid i blant aros tan yn hwyr y nos i gael gwasanaethau roedd arnyn nhw eu hangen, a bod gwasanaethau cwnsela mewn perygl o gau oherwydd nad oedd cyllid wedi cael ei drosglwyddo o'r Byrddau Iechyd Lleol perthnasol.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Mae cyflwyno'r mater hwn i'w drafod yn fy nghyfarfod bord gron ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol eleni wedi darparu fforwm i drafod materion a chynnydd yn y maes hwn. Mae fy swyddfa wedi ymgysylltu ag arweinydd rhaglen Prosiect SARC, ac wedi sicrhau diweddariadau rheolaidd ar gyfer y ford gron, fel bod yr holl aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith, rhywbeth nad oedd ar gael yn flaenorol.

>>>

# Amddiffyniad Rhag Ecsbloetio a Thrais

Ym mis Gorffennaf 2018 fe gwrddais i â Phrif Weithredwr Llwybrau Newydd/New Pathways a rhai o'u haelodau staff. Nhw sy'n darparu gwasanaethau cwnsela i blant ac oedolion yn holl Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru, fwy neu lai, ac roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i glywed mwy am eu gwaith a'r plant a'r bobl ifanc maen nhw'n helpu i'w cefnogi.

Rwyf wedi dal i ymgysylltu â Phrif Weithredwr y GIG, Andrew Goodall ac Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y mater hwn. Yng ngwanwyn 2018 fe godais bryderon ynghylch yr angen am sicrhau trefniant interim ffurfiol ar gyfer plant sy'n byw yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru ynghylch y ddarpariaeth bediatrig yn ystod yr oriau arferol, ochr yn ochr â chynnal momentwm i ddatblygu model tymor canolig/hir.

Yn ystod fy nghyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2019 fe godais bwysigrwydd parhau â gwaith y Llywodraeth yn y maes hwn a'i gydlynu.

## Cynnydd

Mae ffurfio Bwrdd Prosiect SARC a phenodi arweinydd i'r rhaglen, dan arweiniad Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, wedi arwain at gynnydd ar y mater hwn. Mae'r adroddiadau a gafwyd a'r ymgysylltu â'r arweinydd yn awgrymu gwell gwaith amlasiantaeth.

Mae gwaith i sicrhau trefniadau interim ffurfiol ar gyfer plant yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru wedi symud ymlaen, ac rwy'n ymwybodol bod trefniadau gwell ar gyfer rhai plant wedi'u sicrhau yn barod i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2019. Yn amlwg, byddwn i wedi hoffi gweld hyn yn digwydd yn gynharach yn y cyfnod, ond nid yw argaeledd gweithwyr proffesiynol â chymwysterau addas yn rhywbeth y gellir rhoi sylw iddo dros nos. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn unioni'r ddarpariaeth anghyfartal o gymharu â gogledd Cymru yng nghyswllt plant dros 14 oed, a bydd hynny, ynghyd ag agweddau cysylltiedig â model tymor hir, yn parhau'n ffocws yn 2019/2020.

>>>

# Amddiffyniad Rhag Ecsbloetio a Thrais

Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd cyn Brif Weinidog Cymru adolygiad dan arweinydd arbenigol o'r gwasanaethau trais rhywiol a'r llochesi, ac rwy'n ymwybodol bod gwaith yn digwydd yng nghyswllt Menter Gwella Ansawdd Cymru Gyfan ar gyfer Straen Trawmatig. Rwy'n croesawu'r datblygiadau hyn, ond rwy'n disgwyl manylion pellach ynghylch cwmpas y gwaith hwn o ran plant a phobl ifanc. Byddaf hefyd yn gweithio yn 2019/2020 i sicrhau bod hyn a gwaith arall Llywodraeth Cymru wedi'i gydlynu'n ddigonol, gan osgoi dyblygu a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

## Camau nesaf

Er gwaethaf cynnydd yn y maes hwn byddaf yn parhau i graffu'n fanwl ar gamau gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt fy argymhelliad y llynedd, yn arbennig ynghylch gwasanaethau cwnsela ac adferiad digonol i blant yng Nghymru sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## DEWIS ADDYSGU GARTREF

### Y materion allweddol

Yn fy nhri adroddiad blynyddol diwethaf rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau polisi sylweddol er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn anweledig, a'u bod yn derbyn eu holl hawliau dynol: mae hynny'n cynnwys eu hawl i gael addysg, eu hawl i fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau, a'u hawl i fod yn ddiogel.

Mae fy ngalwadau wedi cael eu llywio gan ymchwil CASCADE, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol, a ganfu fod plant sy'n cael eu haddysg gartref ddim yn cael cystal mynediad at wasanaethau cyffredinol, o gymharu â phlant sy'n cael addysg yn yr ysgol. Rwyf wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau newydd gan fod y polisi a'r ymarfer presennol yn gadael rhai plant mewn perygl o golli eu hawl ddynol i gael addysg, ac mewn achosion prin mae diffyg mesurau diogelu wedi golygu bod plant mewn perygl o safbwynt diogelwch.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru fy argymhelliad o fy adroddiad blynyddol 2016-17 mewn egwyddor, a chyhoeddodd ym mis Ionawr 2018 y byddai mesurau newydd i adnabod plant a galluogi rhannu gwybodaeth ar draws sectorau yn cael eu gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol Deddf Plant 2004. Adeg fy adroddiad blynyddol yn 2018-19, roeddwn i'n teimlo rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd o ran symud ymlaen gyda'r mesurau hyn, ac fe wnes i argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r polisi a ddiweddarwyd ar gyfer ymgynghori, gyda'r nod o fodloni'r tri phrawf canlynol yn llawn:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar gwasanaethau a chymdeithas yn gyffredinol;
- Yn ail, bod pob plentyn yn cael addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch;
- Yn drydydd, nad oes modd cyflawni hyn heb roi cyfle i bob plentyn cael eu gweld, a gwrando ar eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg, a'u profiadau.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru yn eu hymateb ysgrifenedig i'm hadroddiad blynyddol diwethaf, a chadarnhawyd hynny'n bersonol wrthyf fi gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd.

## Sut rydym ni wedi dylanwadu

Oherwydd pryderon ynghylch diffyg cyflymdra a chynnydd, yn ystod cyfnod 2018-19 fe wnes i'r Llywodraeth yn ymwybodol fy mod i'n ystyried defnyddio fy mhwerau cyfreithiol i adolygu datblygiad y maes polisi hwn, gan gadw'r opsiwn i adolygu ar unrhyw adeg, petawn i'n pryderu nad yw'r Llywodraeth yn ymarfer eu swyddogaethau i sicrhau y bydd nodau polisi priodol yn cael eu cyflawni.

Ers hynny mae fy swyddfa a minnau wedi bod yn asesu datblygiad canllawiau statudol er mwyn canfod a ydynt yn gallu bodloni fy nhri phrawf. Gwnaed hynny trwy ein presenoldeb ar y grŵp rhanddeiliaid Dewis Addysgu Gartref; trwy nifer o gyfarfodydd rhyngof fi, fy swyddogion ac uwch swyddogion y llywodraeth; a thrwy adolygiad parhaus o rannau o'r canllawiau wrth iddynt gael eu datblygu.

Rwyf hefyd wedi trafod y maes polisi hwn yn uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg ar y pryd ym mis Hydref 2018 a Phrif Weinidog Cymru ym mis Tachwedd 2018, ac fe ges i fy sicrhau bod nod y polisi'n cyfateb i'r hyn roeddwn i'n galw amdano.

Rwyf hefyd wedi ceisio barn pobl eraill ar hyd y cyfnod hwn: mae hynny'n cynnwys ymgysylltu â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg, ac ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg gartref.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Cynnydd ac argymhelliad

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'm hymwneud parhaus â datblygu'r maes polisi hwn, ac mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau i ddigwydd ddiwedd y gwanwyn. Mae swyddogion y Llywodraeth hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys teuluoedd sy'n addysgu gartref ac awdurdodau lleol.

Er bod yr amser mae'n cymryd i'r Llywodraeth gyflwyno canllawiau ar gyfer ymgynghori wedi peri rhwystredigaeth i mi, rwyf wedi cael fy sicrhau bod y Llywodraeth yn ymgynghori'n eang er mwyn sicrhau bod y dull rhannu gwybodaeth a'r canllawiau yn ymarferol bosibl, ac y byddant yn galluogi awdurdodau lleol i weld plant a chanfod pa blant sy'n colli addysg.

Byddaf yn parhau i graffu ar y polisi yn erbyn y tri phrawf a gyflwynwyd yn fy argymhelliad yn 2017-18, ac rwy'n cadw'r hawl i ddewis adolygu camau gweithredu'r Llywodraeth yn y maes hwn yn ffurfiol os bydd y canllawiau a gyhoeddir ar gyfer ymgynghori yn 2019 yn dangos nad yw'r Llywodraeth yn ymarfer ei swyddogaeth er mwyn sicrhau bod y nodau polisi hyn yn cael eu cyrraedd.

### Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith, gan fodloni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag y maen nhw'n cael eu haddysg.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Barn plant a phobl ifanc

"Help gwell. Mynediad i rai sy'n cael Addysg Gartref wneud pethau ymarferol mewn colegau."

"Os ydych chi'n cael addysg gartref a dydych chi ddim yn mynd i grŵp fel hwn, dydych chi ddim yn cael eich gweld, ac mae hynny'n bryder."

"Fe ddwedoch chi fod gan blant hawl i breifatrwydd… trwy eu monitro nhw mae'n teimlo fel petaen nhw'n gwneud rhywbeth o le".

"Cyngor gyrfaoedd – dim mynediad i bobl ifanc sy'n cael Addysg Gartref"

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## CCUHP YN Y CWRICWLWM I GYMRU

### Y materion allweddol

Mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi arwain gwaith ardderchog yn gwreiddio hawliau dynol plant mewn penderfyniadau ac yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn deall ac yn profi eu hawliau, fel mae CCUHP yn eu gwarantu. Ond nid dyma brofiad pob plentyn. Nid yw llawer o weithwyr addysg proffesiynol ac ysgolion yn cysylltu eu gwaith â hawliau plant, ac mae llawer o blant a phobl ifanc yn gadael yr ysgol heb wybod na deall eu hawliau dynol.

Nid yw hawliau dynol plant yn rhywbeth dewisol neu'n beth ychwanegol dymunol. Dylen nhw fod yn rhan waelodol o brofiad pob dydd plant a phobl ifanc, a dylent fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae'r cwricwlwm newydd yn gyfle cyffrous i'r Llywodraeth wneud ymrwymiadau newydd, perthnasol sydd wedi'u gwreiddio mewn hawliau plant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Llywodraeth yn cyflawni eu rhwymedigaethau rhyngwladol i ddiogelu a hybu hawliau plant, ac anghenion tymor hir plant a phobl ifanc. Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i wybod beth yw eu hawliau a'u profi.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Yn ogystal â mynychu'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol i ddiwygio'r cwricwlwm, mae fy swyddfa wedi ymgysylltu'n rheolaidd gydag uwch-swyddogion yn Llywodraeth Cymru ac arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant a'r Dyniaethau.

Trwy ddiweddaru fy mhapur safbwynt ar ddiwygio'r cwricwlwm ym mis Ionawr 2019, fe rannais i brif fanteision addysg hawliau dynol i blant, a dangos sut roedd hawliau dynol plant yn mapio ar draws y Pedwar Diben a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sy'n datblygu. Bu fy swyddfa'n ymgysylltu'n helaeth gydag ysgolion arloesi trwy fy nghynllun Llysgenhadon ar gyfer ysgolion a'm rhaglen o ymweliadau ysgol, ac mae hynny wedi parhau i'm hysbysu ynghylch sut mae'r cwricwlwm newydd wedi bod yn datblygu, a dylanwadu ar brofiad plant a phobl ifanc o addysg. Mae'r wybodaeth ansoddol hon wedi cael ei rhoi yn ei chyd-destun gan ganlyniadau fy Arolwg Addysg gyntaf, Y Ffordd Gywir, oedd yn

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

cynnwys 6392 o blant a phobl ifanc a 391 o weithwyr proffesiynol, gan ddangos angen am wella pob un o bum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ym myd addysg ledled Cymru.

Ym mis Mawrth 2019 fe gyflwynais ymateb llawn a chynhwysfawr i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y Cwricwlwm ac Asesu, yn dangos sut mae modd cryfhau hawliau dynol plant ar draws y cwricwlwm, ac fe wnes i ategu hynny yn fy ymatebion i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Canllawiau ar Berthnasoedd a Rhywioldeb. Datblygodd hynny nifer o'r themâu oedd wedi'u cynnwys yn fy ymateb ymgynghori i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth iddynt graffu ar weithrediad Dyfodol Llwyddiannus a phroses diwygio'r cwricwlwm.

## Cynnydd

Cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn y Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2019. Roedd llawer yn y cynigion deddfwriaethol yr oeddwn i'n ei groesawu, ond roedd hawliau plant yn absennol o'r fframwaith deddfwriaethol a fydd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Er bod hawliau plant wedi'u cynnwys yn y drafft diweddaraf o ddogfennau ategol (camau cynnydd) a welwyd gan fy swyddfa, mae'n bosibl y bydd y dogfennau ategol hyn yn newid dros amser.

Mae hawliau dynol plant yn cynnwys yr hawl i dderbyn addysg sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial a thyfu i fyny gyda phopeth angenrheidiol i fod yn iach ac yn ddiogel. Mae angen i blant ddysgu am eu hawliau fel eu bod yn medru manteisio arnynt a chodi llais pan fyddan nhw'n cael eu trin yn annheg, a pharchu hawliau dynol pobl eraill, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd dylai plant fod yn dysgu mewn amgylchedd sy'n parchu eu hawliau: mae hynny'n golygu eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, ac nad ydynt yn wynebu camwahaniaethu.

Yr unig ffordd o sicrhau hyn yw ei gynnwys yn y gyfraith.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Argymhelliad

Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaol i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylid gosod y ddyletswydd hon ar wyneb bil y Cwricwlwm ac Asesu.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Roedd y materion cysylltiedig ag addysg a godwyd gyda'n Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol yn amrywio o sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgybl, sicrhau nad oedd ymddygiad aflonyddgar disgybl arall yn cael effaith ar addysg gweddill y dosbarth, y ffaith bod staff ysgol yn gwrthod dysgu disgybl, mynediad at ddŵr yfed yn ystod y diwrnod ysgol, methiant i gynnig darpariaeth briodol i blentyn anabl, methiant i ddarparu cinio ysgol i blant os nad yw eu rhieni'n talu'n brydlon, a phlentyn oedd ddim yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dyma fwy o fanylion am rai o'r materion hyn:

**Cefnogaeth Addysg i blentyn 5 oed oedd yn ymddwyn yn heriol**

Ffoniodd rhiant ni oherwydd bod eu plentyn 5 oed yn cael addysg ynysig gydag oedolyn yn cefnogi, heb ryngweithio gyda'r grŵp cyfoedion. Roedd hynny'n dilyn gwaharddiadau dros dro o'r ysgol am ymddygiad anodd a heriol. Roedd yr awdurdod lleol yn cael trafferth dod o hyd i ddarpariaeth briodol ar gyfer anghenion cymhleth y plentyn. Yn y pen draw cafodd y plentyn ddatganiad o Angen Dysgu Ychwanegol, ond ni allai'r awdurdod lleol gynnig darpariaeth arbenigol briodol i blant mor ifanc yn y sir, a buon nhw'n trafod darpariaeth wedi'i theilwra gyda'r rhieni. Yn sgîl ein hymyriad ni, cafodd darpariaeth wedi'i theilwra ei chynnig, fel bod y plentyn dan sylw a disgybl arall yn cael ymyriad ymwybyddiaeth o drawma.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

### Lleoliad Addysg

Cyfeiriodd Aelod Cynulliad achos plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol aton ni. Nid oedd y plentyn dan sylw mewn addysg nac yn derbyn cefnogaeth briodol. Nid oedd gan y plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, a'r honiad oedd bod yr awdurdod lleol yn gwrthod cydnabod yr anghenion hynny.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, fe wnaethon ni gefnogi'r rhiant i herio'r awdurdod lleol a sicrhau bod darpariaeth addysg briodol gan y plentyn. Roedd hynny'n cynnwys ymweld â'r plentyn a mynychu cyfarfod amlasiantaeth yn yr awdurdod lleol, a'r canlyniad oedd bod y plentyn wedi cael datganiad a darpariaeth mewn lleoliad addysgol cefnogol.

### Polisi Ymddygiad Ysgol

Cysylltodd rhiant â ni oherwydd pryder mawr ynghylch effaith niweidiol polisi ymddygiad ysgol, a gyflwynwyd yn ddiweddar, ar eu plant.

Fe wnaethon ni drafod yr achos gyda'r pennaeth, a hefyd yr adolygiad o'r polisi oedd yn dod. Fe gytunon ni i gefnogi'r ysgol trwy ein tîm cyfranogiad er mwyn rhannu arfer gorau a fframwaith addas ar gyfer y broses adolygu.

## Barn plant a phobl ifanc

Byddai 76% o'r athrawon ymatebodd i'n harolwg Addysg, Y Ffordd Gywir, yn hoffi mwy o hyfforddiant ar hawliau plant.

Dim ond 42% o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg Addysg Y Ffordd Gywir mewn ysgolion uwchradd sy'n teimlo eu bod yn cael cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau yn eu hysgol.

Dim ond 26% o'r ymatebwyr oed uwchradd i'n harolwg Addysg Y Ffordd Gywir ddywedodd fod pob person ifanc yn teimlo eu bod yn cael croeso yn eu hysgol.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

Roedd 34% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

"Mae pawb ohonon ni'n parchu hawliau ein gilydd, a dyna sy'n ein gwneud ni'n ysgol wych"

"Dylai pawb ohonon ni gael cyfle i gymryd rhan ac mae ein hysgol yn gwrando ar ein barn"

"Mae angen help arnon ni i ddeall ein hawliau"

"Os byddwch chi'n ddrwg, byddwch chi'n colli amser chwarae, ac mae hynny'n dileu eich hawl i ymlacio a chwarae"

"Mae'n iawn bod yn wahanol, a dylai pob plentyn deimlo croeso yn ein hysgol, beth bynnag yw'r sefyllfa"

"Mae gennym ni ein hawliau, mae'r athrawon yn gwneud gwersi am hawliau ac mae'r ysgol yma i gyd yn rhyfeddol"

"Mae plant yn hapus oherwydd hawliau"

"Mae angen gwersi arnon ni i ddeall ein hawliau"

"Mae hawliau plant yn fawr yn ein hysgol ni ac rydym yn parchu nhw llawer"

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## BWLIO

### Y materion allweddol

Mae bwlio'n dal yn flaenoriaeth allweddol i blant a phobl ifanc, fel y dangoswyd trwy fy ymgynghoriad cenedlaethol Beth Nawr (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019) lle daeth bwlio i'r amlwg fel ail bryder uchaf i blant 7-11 oed. Dewisodd plant 7-11 oed hefyd fwlio fel prif flaenoriaeth ar gyfer fy ngwaith i, gan adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddewiswyd gan blant yn fy ymgynghoriad Beth Nesa' yn 2015. I raddau llai, roedd bwlio hefyd yn bryder i bobl ifanc 11-18 oed yn ymgynghoriad Beth Nawr eleni.

Cafodd fy adroddiad **'Stori Sam'** ar fwlio yn 2017 ei hysbysu gan fwy na 2000 o blant a phobl ifanc. Llywiodd y negeseuon allweddol a rannwyd gan bobl ifanc yr 18 argymhelliad a wnes i yn yr adroddiad hwn, a hefyd fy argymhellion ynghylch dulliau gweithredu gwrthfwlio yn fy nau Adroddiad Blynyddol diwethaf, y derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau ohonynt.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Fe gwrddodd fy swyddfa â'r ymgynghorydd oedd yn drafftio'r canllawiau a'r pecyn offer Parchu Eraill, er mwyn rhannu gyda nhw y negeseuon allweddol gan blant a phobl ifanc a rannwyd trwy fy adroddiad Stori Sam a'm hadroddiad yn 2019, **'Paid Poeni, Rydw i Yma i Ti: Profiadau Plant a Phobl Ifanc o Seiberfwlio yng Nghymru'**.

Fe wnes i ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad ar y canllawiau Parchu Eraill drafft, yn amlinellu sut gallai hynny gysylltu â sawl datblygiad arall, gan gynnwys y Fframwaith Hunanwerthuso ar gyfer Gwelliant sy'n cael ei ddatblygu gan Estyn a'r OECD a gwaith y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl. Mae fy swyddfa hefyd wedi cwrdd ag Estyn, y grŵp Gorchwyl a Gorffen a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y neges hon yn cael ei hategu.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Cynnydd

Roedd y canllawiau Parchu Eraill drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn bodloni pob un ond un o'r argymhellion oedd wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer y canllawiau hyn yn fy adroddiad Stori Sam. Serch hynny, dwy ddim yn meddwl bod statws y canllawiau'n ddigonol i gael effaith wirioneddol ar brofiadau plant a phobl ifanc.

Mae hynny'n rhannol oherwydd eu bod wedi cael eu datblygu ar wahân i bolisi ac arferion addysg allweddol eraill yng Nghymru. Ond mae hynny hefyd oherwydd y bydd statws ymgynghorol i'r canllawiau newydd Parchu Eraill, ac nid oes arwyddion clir y bydd y drafft hwn yn fwy effeithiol na'r fersiwn flaenorol.

O ystyried effaith eang a difrifol bwlio, nid yw hyn yn ymateb digon cryf gan y Llywodraeth. Mae'n annheg i blant bod cofnodi achosion yn dal yn gwbl ddewisol i ysgolion oherwydd statws ymgynghorol y canllawiau Parchu Eraill a'r diffyg cysylltiadau amlwg â mecanweithiau statudol.

Rhaid sicrhau dull cryfach o ddiogelu plant a phobl ifanc ledled Cymru, a dylai cofnodi digwyddiadau fod yn rhan o hynny. Mae defnydd effeithiol o gofnodi yn golygu bod modd datblygu gwaith ataliol ac ymatebol llawer gwell ar lefel ysgol, ac mae hynny'n golygu y bydd llai o bobl ifanc yn bwlio, y bydd llai yn profi bwlio, ac y bydd yr ymatebion i fwlio'n fwy effeithiol.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hunanwerthuso ysgolion yn ymgorffori cofnod o'r holl achosion a mathau o fwlio yr adroddir amdanynt. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio, monitro a gwerthuso'u gwaith gwrthfwlio ataliol ac ymatebol, yn unol â'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn Parchu Eraill ar ôl ei ailddrafftio, a dylai effaith hynny gael ei asesu fel rhan o arolwg ysgol.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Roedd bwlio mewn lleoliadau addysg yn broblem mewn 53 o achosion a ddaeth at sylw ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor eleni. Roedd yr achosion o fwlio yn digwydd ar draws ystod oed ysgolion, ac yn amrywio o bryfocio cyffredinol a phersonol i ymosodiadau corfforol a rhywiol. Adroddwyd hefyd am achosion o hunan-niweidio o ganlyniad i'r bwlio. Llwyddon ni i roi cyngor a chefnogaeth i bawb ohonynt.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Barn plant a phobl ifanc

"Cadw cofnod o'r bwlio."

* "Mynd at bobl sydd wedi cael eu bwlio, sy'n cael eu bwlio i siarad am y peth, fel bod dim rhaid i chi fynd trwyddo ar eich pen eich hun."

"Ddylai athrawon ddim gweiddi ar y bwli, dylen nhw ddysgu nhw i wneud yn well."

"Llawer o anogaeth gan yr ysgol, maen nhw yma hyd yn oed os dyw eich rhieni ddim"

"Bod ag athrawon/â phobl sydd wedi'u hyfforddi i helpu plant os ydyn nhw mewn sefyllfa fwlio – felly bod â phobl i'w cefnogi nhw hyd yn oed ar ôl i'r bwlio gael ei sortio allan – dim ond rhywun i siarad â nhw."

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

### Y materion allweddol

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol ac ymatebion ymgynghori gwahanol, rwyf wedi cyflwyno cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd a Chôd cadarn er mwyn cyflawni ymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan alw am sefydlu'r dull gweithredu traws-sector sy'n angenrheidiol rhwng meysydd iechyd ac addysg.

Rwy'n falch o adrodd bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cael ei phasio gyda sylw dyledus i CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ar wyneb y Bil.

Cyhoeddwyd y Côd a'r Rheoliadau drafft ym mis Rhagfyr 2018 ar gyfer ymgynghori. Roedd y Côd drafft yn cynnwys esboniad grymus ar bwysigrwydd cyfranogiad ystyrlon, wedi'i seilio ar hawliau cyfranogol plant a phobl ifanc. Roedd y Côd hefyd yn dangos adlewyrchiad clir o ddyletswydd sylw dyledus wrth gynllunio darpariaeth dysgu ychwanegol ar lefel leol.

O dan y Ddeddf mae gan gyrff iechyd ddyletswyddau statudol, a bydd gan y Tribiwnlys Addysg hefyd yn awr bwerau dros gyrff iechyd, gan gynnwys y gallu i ofyn am dystiolaeth ac adroddiadau ar gyfer apeliadau.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Mae fy swyddfa wedi parhau â'n hymrwymiad hirdymor i'r maes polisi hwn trwy gyflwyno ymateb ymgynghori llawn i'r Côd a'r Rheoliadau drafft. Bu fy swyddfa'n bresennol hefyd yn sesiwn craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Côd drafft fel rhanddeiliaid arbenigol, ac maent hefyd wedi ymgysylltu'n eang â'r sector AAA yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: cyflwynwyd sesiwn gweithdy am ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghynhadledd Penaethiaid Ysgolion Arbennig Cymru Gyfan a chynhaliwyd cyfres o ymweliadau ag ysgolion anghenion addysgol arbennig (AAA) i ddatblygu ein perthynas â gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc yn y sector.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd clir yn y maes hwn: mae fy argymhellion polisi ynghylch cyrff iechyd, y Tribiwnlys Addysg a dyletswyddau sylw dyledus i offerynnau hawliau dynol wedi cael eu rhoi ar waith yn y ddeddfwriaeth, ac maent yn cael eu gwneud yn rhan o bolisi ar hyn o bryd.

Amlygodd fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Côd, er gwaethaf rhai cryfderau, bod meysydd pwysig o hyd lle mae angen gwella'r Côd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu hawliau plant a phobl ifanc yn llawn. Ymhlith y meysydd allweddol lle rwyf wedi galw am welliannau mae: prif-ffrydio dyletswydd sylw dyledus i brofiadau pob dydd plant a phobl ifanc; angen am asesu'r effaith o ran adnoddau ymhellach, ac adolygiad cyllid ehangach; a mwy o bwyslais ar ddull gweithredu seiliedig ar anghenion.

Rwyf hefyd yn pryderu'n fawr nad oes digon o ofynion i integreiddio penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth wrth gynllunio ar gyfer unigolion. Mae hyn yn bwysig gan nad yw pobl ifanc ar hyn o bryd bob amser yn cael trafnidiaeth ddiogel, hygyrch i gyrraedd eu haddysg, ac mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno sicrwydd cyhoeddus y bydd hyn yn cael ei ddatrys o dan Ddeddf 2018.

### Argymhelliad

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod dyletswydd statudol sy'n gofyn bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n dod o dan y Ddeddf yn derbyn trafnidiaeth ddiogel i'w safle addysg.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru ail-ystyried eu hymateb i fy argymhelliad o fy adroddiad blynyddol 15l16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ag unrhyw ddarpariaeth a chanllawiau statudol cysylltiol.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Rydyn ni wedi derbyn nifer o achosion dros y blynyddoedd diwethaf sy'n tynnu sylw at effaith syfrdannol mae'r diffyg trafnidiaeth yn ei gael ar unigolion. Dyma un:

Cysylltodd rhiant â ni ynghylch trafnidiaeth i'r ysgol, oherwydd bod gan eu plentyn ddiagnosis o nifer o anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys awtistiaeth ddifrifol, anghenion dysgu difrifol, a rhai materion corfforol anweladwy oedd yn golygu bod ganddyn nhw broblemau synhwyraidd. Roedden nhw eisiau cyngor ar sut gallen nhw ofyn am newid trafnidiaeth i'r ysgol, o fws mini i dacsi, ac roedden nhw'n teimlo y byddai darpariaeth o'r fath yn fwy addas ar gyfer anghenion y plentyn. Ar hyn o bryd roedd y plentyn yn teithio ar fws gyda chyfoedion i ysgol arbennig. Roedd y rhieni'n cael trafferth sicrhau bod eu plentyn yn mynd ar y bws yn y bore, ac roedd gyrrwr y bws a'r hebryngwr, oherwydd pwysau amser, yn methu aros mor hir â'r amser roedd yn cymryd i'r plentyn gydweithredu â'r rhieni. Fe wnaethon ni gynghori'r rhiant ar y ffordd orau o ofyn am newid darpariaeth trafnidiaeth gan yr awdurdod lleol.

## Barn plant a phobl ifanc

"Mae'n bwysig cael lleisio barn a dweud beth rydyn ni eisiau yn yr ysgol"
Person Ifanc, Ysgol AAA

"Rhoi llais drostynt eu hunain i'n plant, lle mae llawer o bobl wedi bod yn gwneud hynny drostyn nhw, asiantaethau allanol a rhieni, oherwydd eu hanableddau. Rwy'n credu… mewn gwirionedd… grymuso nhw i leisio barn drostynt eu hunain, i fod â'u hanghenion a'u hawliau unigol eu hunain a mynegi hynny."
Athro, Ysgol AAA

Mae'n bwysig bod disgyblion yn gwybod am eu hawliau a beth gallan nhw hawlio "
Athro, Ysgol AAA

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## TLODI

### Y materion allweddol

Ym mis Mawrth 2018, roedd 28% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi plant, a rhagwelir y bydd y nifer hwnnw'n codi'n sylweddol. Er bod y system les yn cael cryn effaith ar y cynnydd a ragwelir a'r sefyllfa bresennol, mater nad yw o fewn cwmpas fy mhwerau i, mae gan Lywodraeth Cymru rai mecanweithiau o fewn ei gafael i helpu i ymdrin â'r mater hwn.

Ffocws fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn oedd casglu profiadau a barn uniongyrchol plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, neu yn nodi sut brofiad maen nhw'n meddwl fyddai byw mewn tlodi yng Nghymru, gyda golwg ar gyflawni newidiadau ymarferol a fyddai'n gwella'r sefyllfa.

Trwy ein sgyrsiau gyda mwy na 550 o blant a phobl ifanc, dros 300 o rieni a gofalwyr, a mwy na 40 o weithwyr proffesiynol, cawsom fod y costau lluosog sy'n gysylltiedig â'r ysgol, costau bwyd yn yr ysgol a'r tu allan, a'r diffyg cyfleoedd mewn cymunedau yn golygu bod llawer o blant ddim yn derbyn eu hawliau plant mwyaf sylfaenol.

Cyn i'r prosiect hwn gychwyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau oedd ar y naill law yn darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd ar incwm isel, ond ar yr un pryd yn lleihau'r gefnogaeth mewn meysydd eraill. Enghreifftiau o hyn fyddai'r penderfyniad i dynnu arian y grant gwisg ysgol yn ôl, ochr yn ochr â chyflwyno cefnogaeth ar ffurf cynnyrch hylendid mewn ysgolion. Er i'r penderfyniad ynghylch gwisg ysgol gael ei wyrdroi, amlygodd hyn ymhellach fod diffyg dull gweithredu cyson, trawslywodraethol o ymdrin â thlodi plant.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Sut rydym ni wedi dylanwadu

Y bwriad wrth ddatblygu prosiect tlodi plant penodol o'r math hwn ac ar y raddfa hon oedd rhoi cyfle sensitif i blant drafod y mater a rhoi arwydd clir i Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac unrhyw un sy'n byw yng Nghymru, sef mai tlodi plant yw un o'r materion mwyaf arwyddocaol y mae'n rhaid i hawliau plant eu hwynebu yng Nghymru.

Croesawodd rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol y ffaith bod y gwaith hwn yn troi llifolau ar y mater ac yn edrych ar gamau gweithredu amlwg yn y cyfnod byr i ganolig a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant sy'n byw mewn tlodi.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe fues i hefyd yn codi llais ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu'r Grant Gwisg Ysgol ym mis Ebrill 2018. Ym mis Mehefin 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun newydd, Mynediad PDG, y mae modd ei ddefnyddio ar gyfer prynu gwisg ysgol, cyfarpar, cit chwaraeon a chit ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

Mae fy swyddfa wedi ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn i gadw deialog ar agor ynghylch eu gwaith, gan gynnwys cynnyrch hylendid a'r grant Mynediad PDG, (y grant Gwisg Ysgol yn flaenorol).

Fe wnes i ddarparu hefyd ymateb ymgynghori ffurfiol i newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a darparu tystiolaeth ar lafar ac ar bapur i Ymchwiliad Dyfodol Bwyd Plant yn y Deyrnas Unedig.

Penllanw fy ngwaith yn y cyfnod hwn oedd mis Mawrth 2019, pan gyhoeddwyd fy adroddiad: **Siarter ar gyfer Newid**: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi. Mae'n cyflwyno cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chynhyrchu adnoddau ar gyfer ysgolion. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi Plant i gyflawni camau ymarferol fyddai'n newid bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Rwyf wedi cwrdd â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i rannu'r adroddiad a chael trafodaeth gychwynnol ynghylch yr argymhellion. Rwyf hefyd wedi trafod yr adroddiad gyda Phrif Weinidog Cymru, oedd yn croesawu'r dull gweithredu o gyflwyno awgrymiadau ymarferol a allai fod o fudd uniongyrchol i blant a theuluoedd yng Nghymru yn awr.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Cynnydd

Bydd y cynnydd yng nghyswllt tlodi plant yn y cyfnod hwn ac wrth symud ymlaen yn dal yn heriol i'w asesu yn absenoldeb cynllun cyflawni fydd yn caniatáu galw'r Llywodraeth i gyfrif ynghylch eu gweithredoedd.

Yn dilyn pryderon a godwyd gennyf finnau ac eraill ynghylch colli'r Grant Gwisg Ysgol roeddwn i'n falch o weld cyflwyno'r grant mynediad ar gyfer y PDG. Rwy'n croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi estyniad i'w Cynllun Mynediad PDG, a hefyd gynnyrch hylendid am ddim i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad Siarter ar gyfer Newid.

Fodd bynnag, mewn meysydd eraill yn ystod y cyfnod hwn mae'r Llywodraeth, yn fy marn i, wedi colli cyfle i helpu i fynd i'r afael â thlodi plant, gan gynnwys y newidiadau trwy'r meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r cynnig gofal plant a fydd yn dal ar gael i blant 3 a 4 oed rhieni sy'n gweithio yn unig.

Mae cyhoeddi Siarter ar gyfer Newid yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwn. Felly bydd 2019/2020 yn flwyddyn bwysig pryd y byddaf fi a'm swyddfa yn cwrdd â Gweinidogion a rhanddeiliaid eraill i yrru'r argymhellion a'r agenda hon yn eu blaen.

Bydd fy Swyddfa hefyd yn datblygu ail gyfnod i'r gwaith hwn i helpu i wneud cyfraniad ymarferol i'r mater hwn trwy annog ysgolion ac awdurdodau lleol i weithio gyda phlant i sefydlu cynlluniau ailgylchu ac ailddefnyddio gwisg ysgol, ac ystyried cost y diwrnod ysgol.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Argymhelliad

Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd argymhellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid i ystyriaeth, a chyhoeddi cynllun cyflawni yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru effaith tlodi plant a mynd i'r afael ag e.

## Barn plant a phobl ifanc

Y cyfan roeddwn i'n gallu fforddio oedd un frechdan NEU ffrwyth a diod – byth pryd o fwyd

Mae moron yn costio £1 ond rydych chi'n gallu cael bag mawr o greision am 50c – rwy'n gwybod p'un fyddai orau gen i"

"Weithiau pan oeddwn i'n ifancach, byddwn i'n eistedd yn y bath adeg mislif achos bod dim padiau gen i"

"Byddwn i'n teimlo'n eithriadol o drist oherwydd byddai pobl eraill yn gallu gwneud pethau roeddwn i'n methu gwneud; ar ben hynny, byddwn i'n teimlo'n eiddigeddus o bobl eraill achos eu bod nhw'n gallu fforddio pethau'n hawdd"

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## IECHYD MEDDWL A LLESIANT

### Y materion allweddol

Mae iechyd meddwl a llesiant yn dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, eu rhieni a'u gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Adlewyrchwyd hynny yn fy arolwg o fwy na 10,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru, a'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw, Beth Nawr 2019, lle roedd cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn brif flaenoriaeth i bobl ifanc 11-18 oed a gweithwyr proffesiynol, ac yn flaenoriaeth ar y cyd i blant 7-11 oed, ochr yn ochr â bwlio a diogelwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y plant sydd â'r problemau iechyd meddwl mwyaf difrifol ac sydd angen y gefnogaeth fwyaf wedi lleihau yn hytrach na gwella, gyda'r cyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar blant sydd â'r problemau ymddygiad mwyaf difrifol yn golygu yn aml nad oes ganddynt unrhyw le i fynd a fydd yn gofalu amdanyn nhw. Yn y cyfamser, yn achos y rhai sy'n profi trallod emosiynol, ymddygiadol, neu feddyliol 'lefel is', yn aml nid oes fawr ddim cefnogaeth ar gael.

Cyfeiriodd Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadernid Meddwl, a gyhoeddwyd y llynedd, at sawl maes allweddol lle mae angen dybryd am wella. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion, gwella gwasanaethau ar gyfer y plant sy'n fwyaf anhwylus o ran iechyd, a mwy o gefnogaeth ar gyfer y 'Canol Coll'; y rhai sy'n profi trallod ymddygiadol, emosiynol neu feddyliol nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, ond nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.

### Sut rydym ni wedi dylanwadu

Ym mis Gorffennaf 2018, yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor, Cadernid Meddwl, fe gyhoeddais bapur safbwynt a ddosbarthwyd i'r holl Aelodau Cynulliad, yn nodi pam roeddwn i'n teimlo bod ymateb Llywodraeth Cymru yn cynrychioli cyfle a gollwyd am newid sylweddol yn ein dull o ymdrin â iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Rwy'n aelod o'r Grŵp Cyfeirio Allanol ar gyfer y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP), ac mae fy swyddfa'n aelod o Fwrdd y Rhaglen. Rydym hefyd wedi cyfrannu at gyfarfodydd o lifoedd gwaith T4CYP, yn ogystal ag ymwneud â'r cynllunio ar gyfer y digwyddiad Cymorth Cynnar a Gwell Cefnogaeth ym mis Mehefin 2019.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Rwy'n aelod o'r Grŵp Cynghori Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd ynghylch dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, ac mae fy swyddfa'n aelod o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer y corff hwn.

Mae fy swyddfa wedi mynychu a chyfrannu at sawl cynhadledd a gweithdy ar thema 'dull gweithredu ysgol gyfan', a chymorth cynnar a gwell cefnogaeth i'r 'canol coll', yn ogystal â chwrdd â rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, y GIG, y trydydd sector, a chyrff eraill sector cyhoeddus.

Rwyf wedi ymweld â'r unedau cleifion mewnol yn ne a gogledd Cymru, yn ogystal â'r gwasanaethau CAMHS cymunedol yng ngogledd a de Cymru. Rwyf hefyd wedi ymweld â sawl ysgol sy'n darparu enghreifftiau o waith dull gweithredu ysgol gyfan, trwy fentrau mewnol, neu trwy ymyriadau allanol, gan gynnwys rhaglen beilot In-Reach CAMHS.

## Cynnydd

Mewn ymateb i adroddiad y pwyllgor, Cadernid Meddwl, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd ynghylch dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, yr wyf fi'n aelod ohono.

Sefydlwyd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn 2015, gyda'r dasg o wella gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhaglen i ddod i ben ym mis Hydref 2019.

Mae T4CYP wedi gwneud peth cynnydd da i wella mesurau megis amserau aros mewn rhai meysydd. Er bod y Rhaglen yn gweithio'n galed i gyflawni gwelliannau, mae'n destun pryder i mi nad oes llawer o dystiolaeth o welliannau 'ar lawr gwlad'.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Argymhelliad

Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar frys i sefydlu trefniadau dilyniant ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Roedd Plentyn B wedi cymryd gorddos, a arweiniodd at dderbyn y person ifanc i'r ysbyty. Ers cael ei ryddhau o'r ysbyty nid oedd Plentyn B wedi cael cynnig unrhyw gefnogaeth, er i'r teulu gael gwybod y byddai'n gallu cael mynediad i gefnogaeth yn y gymuned. Pan gafodd Plentyn B ei ryddhau o'r ysbyty, ni rannwyd gwybodaeth ynghylch beth dylai'r teulu ei wneud petai symptomau'r person ifanc yn dychwelyd cyn unrhyw apwyntiad CAMHS.

Ffoniodd y teulu y gwasanaeth CAMHS lleol, a chlywed bod eu plentyn ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiad gyda CAMHS, ond eu bod yn methu rhoi dyddiad. Roedd ysgol y plentyn yn ymwybodol o'r sefyllfa, ond roedd rhestr aros am eu cwnselydd nhw hefyd.

Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol wrth y teulu mai cyfrifoldeb CAMHS yw cefnogi Plentyn B, ac o ganlyniad ni chynigiwyd unrhyw gefnogaeth ganddyn nhw.

Dywedodd Plentyn B wrth eu teulu bod y meddyliau a arweiniodd at y gorddos wedi dychwelyd, ac roedd y teulu'n pryderu'n fawr, gan eu bod yn methu cael unrhyw gefnogaeth i'w plentyn. Ffoniodd Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yr ysbyty i holi am gefnogaeth / apwyntiadau pellach gyda CAMHS, a sicrhau apwyntiad gyda nyrs seiciatrig yn y gymuned; rhannwyd y manylion hynny gyda'r teulu.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Barn plant a phobl ifanc

"Ddylai plant ddim gorfod cyrraedd argyfwng cyn cael help!"

"Dylai plant gael eu haddysgu ynghylch hawliau fel eu bod yn gwybod os yw rhywbeth sy'n digwydd yn eu bywyd yn anghywir, ac yna byddan nhw'n teimlo'n ddiogel i godi llais cyn i bethau droi'n argyfwng!"

"Dylai plant fedru cael mynediad i fannau diogel, lle byddan nhw'n gallu siarad a theimlo'n ddiogel."

"Dylai fod hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn ysgolion. Dylai pobl ifanc mewn trallod wybod at bwy gallan nhw droi, pwy gallan nhw ymddiried ynddyn nhw"

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## TREFNIADAU PONTIO IECHYD

### Y materion allweddol

Datgelodd fy adroddiad yn 2018 **Paid Dal yn ôl**: Pontio i Oedolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anableddau Dysgu fod anawsterau a diffygion wrth gynllunio pontio i oedolaeth ar draws yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â gofal pobl ifanc. O ran Iechyd, dywedodd pobl ifanc a'u teuluoedd wrthym ni fod gwasanaethau yn aml yn ddarniog, bod oed pontio yn amrywio mewn gwasanaethau gwahanol, a bod y broses a'r polisïau pontio'n amrywio rhwng gwasanaethau a byrddau iechyd a'i gilydd. Dywedson nhw wrthym ni hefyd fod penderfyniadau pontio mewn rhai achosion yn destun oedi neu'n digwydd yn hwyr yn y dydd oherwydd bod y gwasanaethau plant ac oedolion yn methu dod i gytundeb ynghylch pa wasanaeth sy'n gyfrifol.

Roedd hyn yn golygu bod y broses yn aml yn drysu pobl ifanc, a'u bod nhw'n teimlo eu bod yn methu cyfranogi'n iawn, ac felly'n teimlo wedi'u dadrymuso.

Rwy'n pryderu i glywed bod rhai pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau am y tro cyntaf, gan gynnwys adrannau achosion brys, yn gallu wynebu sefyllfa lle bernir nad ydyn nhw'n ffitio i'r gwasanaethau pediatrig na'r gwasanaethau oedolion sy'n cael eu cynnig yno, ac felly mae penderfyniadau ynghylch eu gofal yn destun oedi, heb gael cytundeb o gwbl, neu maen nhw'n cael atgyfeiriad amhriodol i'r gwasanaethau oedolion. Dylai fod llwybrau gofal cytunedig ar gyfer y grŵp oed yma.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Sut rydym ni wedi dylanwadu

Mae fy nhîm wedi gweithio gyda'r Colegau Iechyd Brenhinol yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru, i drefnu cyfres o gyfarfodydd i drafod y materion, a hefyd, yn bwysig, i archwilio arfer da ac atebion posibl.

Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac uwch-reolwyr yn y GIG.

Byddaf fi hefyd yn arwain sesiwn i drafod y mater hwn yn fy Seminar Iechyd Plant sydd i ddod ym mis Gorffennaf, a byddaf yn cynnal cyfarfod pellach gyda'r Colegau Brenhinol ym mis Gorffennaf.

## Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru i fod i ymgynghori ar ganllawiau newydd ynghylch pontio o wasanaethau plant i oedolion mewn lleoliadau iechyd yn yr hydref, y dywedir wrthym fydd wedyn yn cael eu dosbarthu i Fyrddau Iechyd fel Cylchlythyr Gweinidogol.

Mae cynlluniau hefyd i sefydlu Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu, a byddaf yn rhoi sylw manwl iddo ac yn adrodd ymhellach arno yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau iechyd yn cael canllawiau effeithiol fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad i lwybrau amlasiantaeth cydlynus ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth greu eu cynlluniau gofal.

Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol.

## Enghraifft o achos Ymchwiliadau a Chyngor

Roedd Plentyn A yn troi'n 18 oed pan gysylltodd ei ofalwr maeth â'n swyddfa. Roedd cyflwr oedd yn cyfyngu bywyd ar Blentyn A, ac roedd wedi bod yn yr un lleoliad maeth am gryn nifer o flynyddoedd Y prif dîm gwasanaethau cymdeithasol oedd tîm anabledd y plentyn yn ogystal.

Y cynllun oedd y byddai'r person ifanc yma'n aros gyda'r gofalwyr maeth, a fyddai'n dod yn ofalwyr Bywydau a Rennir. Dadgofrestrodd y gofalwyr maeth o fod yn ofalwyr maeth er mwyn medru cael asesiad i fod yn ofalwyr Bywydau a Rennir, fel bod y person ifanc yn gallu aros yn eu gofal. Ni chynhaliwyd yr asesiad, ac roedd y person ifanc yn awr mewn lleoliad gyda gofalwyr oedd heb eu cofrestru.

I gymhlethu'r sefyllfa ymhellach, roedd gan y person ifanc anghenion iechyd sylweddol ac roedd y ddau Fwrdd Iechyd Lleol dan sylw yn awr yn dadlau ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am anghenion iechyd y person ifanc, oedd bellach yn oedolyn.

Yn ystod y cyswllt, llwyddwyd i sicrhau bod materion y lleoliad a'r gefnogaeth barhaus yn cael eu datrys.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Barn plant a phobl ifanc

"Sicrhau bod pobl fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol ac arbenigwyr iechyd yn gweithio'n well gyda'i gilydd"

"Dylai pobl ifanc fod yn ganolog i bob gwasanaeth cymorth, ac ni ddylai fod rhwystrau i atal pobl ifanc rhag derbyn y gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen ac y maen nhw'n ei haeddu"

"Gwrando ar bobl ifanc yw'r peth pwysicaf i'w gofio"

"Mae ANGEN i wasanaethau gyfathrebu â'i gilydd – dylai fod yn orfodol"

"Mae angen bod cysylltiadau gwell â thai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn helpu i gael hyd i lety gyda chymorth, er enghraifft. Rydw i wedi bod yn yr uned yn hirach na dylen i fod achos bod dim llety wedi cael ei drefnu"

"Sortio'r bylchau – os ydych chi'n 17 oed ac mewn addysg mae'r gwasanaethau plant ac oedolion yn eich gwrthod"

"Mae pontio i oedolaeth yn dal yn frwydr – gwell paratoi – gwneud e'n llai brawychus"

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## EIRIOLAETH IECHYD

### Y materion allweddol

Rwyf wedi codi pwysigrwydd cymorth eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ers blynyddoedd lawer, ac mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae eiriolaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol wedi symud ymlaen i gam Dull Gweithredu Cenedlaethol cytunedig ar gyfer comisiynu a darpariaeth, er bod hynny wedi cymryd nifer o flynyddoedd i'w gyflawni. Rwy'n dal i bryderu nad oes darlun clir o'r ddarpariaeth eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Rydym ni'n gwybod bod gwahanol fyrddau iechyd wedi comisiynu gwahanol wasanaethau eiriolaeth, ac rwy'n pryderu nad oes cysondeb rhwng gwasanaethau ledled Cymru. Rwy'n credu y dylai fod cynnig gweithredol o eiriolaeth, sy'n cael ei hysbysebu'n briodol, ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd angen hynny.

Rwyf hefyd yn pryderu bod Llywodraeth Cymru ac eraill weithiau yn gallu drysu rhwng eiriolaeth a chwynion. Er bod helpu plant a phobl ifanc i wneud cwynion yn elfen bwysig o eiriolaeth, mae eiriolaeth yn swyddogaeth fwy cyfannol sy'n rhoi llais i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi pan fydd trafod ar benderfyniadau fydd yn effeithio arnyn nhw. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal iechyd, lle gall pobl ifanc o dan 16 oed gael capasiti i wneud eu penderfniadau eu hunain mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth. Gallai cymorth eiriolaeth wneud gwahaniaeth allweddol o ran sicrhau eu bod yn gallu mynegi barn o'r fath neu gyfranogi'n llawn yn y trafodaethau hynny.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Sut rydym ni wedi dylanwadu

Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Iechyd yn ysgrifenedig ac yn ystod cyfarfodydd, ac mae fy nhîm wedi trafod hyn gyda swyddogion iechyd Llywodraeth Cymru sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Byddaf hefyd yn cynnal sesiwn ar y pwnc yma yn fy Seminar Iechyd Plant sydd i ddod ym mis Gorffennaf 2019, er mwyn clywed gan Fyrddau Iechyd am eu trefniadau eiriolaeth, ac i drafod sut gallwn ni weithio tuag at system decach.

## Cynnydd

Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at holl Fyrddau Iechyd Cymru ym mis Mawrth 2019, yn gofyn iddyn nhw amlinellu eu proses ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dymuno gwneud cwyn. Er bod y llythyr yn cyfeirio at eiriolaeth, roedd yn canolbwyntio ar gwynion. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion gan y Byrddau Iechyd yn gyffredinol o gymorth i gael mwy o syniad o'r darlun ledled Cymru. Datgelodd yr ymatebion dirlun cymysg iawn, fodd bynnag, gyda rhai Byrddau'n ystyried darparu eiriolaeth i unrhyw blentyn neu berson ifanc oedd yn gofyn am hynny, a'i hysbysebu, a rhai Byrddau'n darparu eiriolaeth dim ond i unedau iechyd meddwl cleifion mewnol, fel sy'n statudol o dan y Mesur Iechyd Meddwl.

Er gwaethaf y camau hyn gan Lywodraeth Cymru, rwyf wedi cael fy siomi'n gyffredinol gan y diffyg cynnydd yn y maes hwn a'r diffyg cydnabyddiaeth i rôl a gwerth ehangach eiriolaeth ym mhob mater, yn hytrach nag yn syml fel rhan o'r broses gwynion.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth cysylltiedig â iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny, a monitro cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn ei hyrwyddo.

## Barn plant a phobl ifanc

Gwrando ar bobl ifanc yw'r peth mwyaf pwysig i'w gofio"

"Eiriol dros bobl ifanc, fel eu bod nhw ddim yn cael eu distewi"

"Sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod eu hawliau"



# DIWEDDGLO A CHRYNHOI'R ARGYMHELLION

Ym mis Chwefror 2016, fe gyflwynon ni'r nodau canlynol ar gyfer hawliau plant yng Nghymru.
Yn hydref 2019 byddwn ni'n cyhoeddi gwerthusiad, i ddangos i ba raddau mae ein gwaith ni, a gwaith Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill, wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:

- **Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon i'r gwasanaethau iechyd meddwl mae arnyn nhw eu hangen. Bydd rhaglenni cryfach i hybu iechyd emosiynol a llesiant ar waith yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid**
- **Bydd gwell dealltwriaeth o brofiadau cyfoes plant o fwlio, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol**
- **Bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli cyfleoedd i wneud pethau felly, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl**
- **Bydd ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad i opsiynau tai diogel, sicr, a chynnig gweithredol ar gyfer swydd, addysg neu le mewn hyfforddiant**
- **Bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus yn cael pontio'n well i wasanaethau oedolion**
- **Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol**
- **Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun.**

Mae ein gwaith ymgynghori helaeth wedi bwydo i ddatblygiad cynllun tair blynedd newydd a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2019. Yn 2019|20 byddwn ni'n gweithio ar brosiectau yn y meysydd canlynol:

- **Dadansoddi effeithiolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**
- **Gweithredu'r 'Ffordd Gywir'**
- **Dadansoddi effeithiolrwydd cynghorau ysgol**
- **Creu cynllun hawliau plant ar gyfer y cyfnod Sylfaen**
- **Cyhoeddiad ar hawliau plant i rieni**
- **Adroddiad canol tymor i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn**
- **Cefnogi pobl ifanc i gynrychioli Cymru yn Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop**
- **Cyhoeddi her newydd seiliedig ar hawliau i Sgowtiaid a Geidiau**
- **Gwerthuso ein cynllun tair blynedd diwethaf**

## Crynodeb o'r argymhellion

Mewn ymateb i'r materion y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, rwy'n crynhoi yma'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae ein hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn argynhellion y llynedd ar gael ar ein gwefan yma. Rydyn ni'n diweddaru'r asesiad hwn bob chwarter, cyn cyfarfod y Comisiynydd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Blant.

| MAES POLISI | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen** | |
| **Gofal preswyl i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth** | Dylai **Llywodraeth Cymru** sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd, ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.<br><br>Dylai **Llywodraeth Cymru** weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau iechyd meddwl presennol i gleifion mewnol yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yn ddiogel yno.<br><br>Dylai **Llywodraeth Cymru** gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn. |
| **Gadael gofal** | Dylai **Llywodraeth Cymru** newid y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal â hawl i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed.<br><br>Dylai **Llywodraeth Cymru** wneud cynnydd mwy pendant i estyn hawliau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn darparu lefel gyfatebol o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hyn ar lefel statudol. |
| **Dileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal plant** | Rhaid i **Lywodraeth Cymru** ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf at leihau ac yn y pen draw ddileu elw o wasanaethau gofal plant, heb niweidio trefniadau gofal presennol plant a phobl ifanc. |

| MAES POLISI | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol** | |
| **Dewis addysgu adref** | Rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith, gan fodloni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag y maen nhw'n cael eu haddysg. |
| **CCUHP yn y Cwricwlwm i Gymru** | Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaol i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylid gosod y ddyletswydd hon ar wyneb bil y Cwricwlwm ac Asesu. |
| **Bwlio** | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hunanwerthuso ysgolion yn ymgorffori cofnod o'r holl achosion a mathau o fwlio yr adroddir amdanynt. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio, monitro a gwerthuso'u gwaith gwrthfwlio ataliol ac ymatebol, yn unol â'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn Parchu Eraill ar ôl ei ailddrafftio, a dylai effaith hynny gael ei asesu fel rhan o arolwg ysgol. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod dyletswydd statudol sy'n gofyn bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n dod o dan y Ddeddf yn derbyn trafnidiaeth ddiogel i'w safle addysg.<br><br>Felly, dylai Llywodraeth Cymru, ail-ystyried eu hymateb i fy argymhelliad o fy adroddiad blynyddol 15l16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ag unrhyw ddarpariaeth a chanllawiau statudol cysylltiol. |

| MAES POLISI | ARGYMHELLIAD |
| --- | --- |
| **Safon Byw sy'n Ddigonol** | |
| **Tlodi** | Mae angen i **Lywodraeth Cymru** gymryd argymhellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid i ystyriaeth, a chyhoeddi cynllun cyflawni yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru effaith tlodi plant a mynd i'r afael ag e. |
| **Iechyd Meddwl a Llesian** | Rwy'n argymell bod **Llywodraeth Cymru** yn gweithio ar frys i sefydlu trefniadau dilyniant ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc |
| **Trefniadau Pontio Iechyd** | Dylai **Llywodraeth Cymru** sicrhau bod byrddau iechyd yn cael canllawiau effeithiol fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad i lwybrau amlasiantaeth cydlynus ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth greu eu cynlluniau gofal.<br><br>Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol. |
| **Eriolaeth Iechyd** | Dylai **Llywodraeth Cymru** sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth cysylltiedig â iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny, a monitro cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn ei hyrwyddo. |




# Prosesau Sefydliadol

# Prosesau sefydliadol

**Fel swyddfa gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i weithredu systemau penderfyniadau ac atebolrwydd trylwyr a thryloyw. Lluniwyd ein fframwaith gwerthuso i ddarparu trosolwg o gyflawni ein gwaith craidd a phrosesau mewnol y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: pobl y Comisiynydd, prosesau sefydliadol y Comisiynydd, cynaliadwyedd ariannol a gwerth am arian y Comisiynydd a phlant a phobl ifanc Cymru. Byddwch chi'n gallu darllen am ddwy o'r pedair elfen – ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc a chynaliadwyedd ariannol – ar dudalennau blaenorol yr adroddiad, ac isod rydyn ni wedi cynnwys uchafbwyntiau yng nghyswllt pobl y Comisiynydd a phrosesau sefydliadol. Mae ein Datganiad Llywodraethu ar dudalen 110 hefyd yn cyffwrdd ag elfennau o'r cylch gwerthuso hwn.**

# Prosesau Sefydliadol



**Hyfforddiant:**
Mae Tabl 6 ar dudalen 96 yn dangos bod naw aelod tîm ar draws y rhan fwyaf o raddau, patrymau gwaith a rhywedd wedi cyflwyno cais am hyfforddiant allanol ac elwa ohono.

Yn ogystal, yn ystod blwyddyn ariannol 2018/2019, bu pob aelod o'r tîm yn cymryd rhan yn ein rhaglen dysgu a datblygu i'r sefydliad trwy ddarparwyr hyfforddiant allanol:

- **Stonewall Cymru**
- **Hyfforddiant Rheoli Prosiectau (wedi'i Achredu)**
- **Hyfforddiant Cyfryngau**
- **Diwrnodau Cynllunio Strategol**
- **Hyfforddiant Plain English**
- **Cymraeg Clir**
- **Ymwybyddiaeth o Seiberfwlio**
- **Sgyrsiau gyda phobl fregus, a gyflwynwyd gan y Samariaid**


**Salwch:**
Canran gronnol 2018/19 yw 5.45%

## Proffil o'r Gweithlu a Phroffil Cyflog Cyfartal ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2018 tan 31 o Fawrth 2019

Rydyn ni'n casglu ystadegau am y gweithlu fel mater o drefn ynghylch yr holl nodweddion a amddiffynnir sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae'r ystadegau hynny yn ein helpu i ganfod camau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb bob blwyddyn. Dydyn ni ddim yn cyhoeddi'r holl ystadegau hyn yn y ddogfen oherwydd bod ein gweithlu'n fychan, ac felly mae'n anodd sicrhau bod y data hwn, a allai fod yn sensitif, yn parhau'n ddienw.


## 1. Ystadegau Rhywedd y Gweithlu

**Tabl 1**
**Nifer yr unigolion yn ôl rhywedd, gan gymharu yn erbyn data poblogaeth cyfrifiad 2014 Cymru (3092,000) 31 Mawrth 2018**




Mae Tabl 1 yn dangos nad yw'r rhaniad rhywedd yn CPC ar 31 Mawrth 2019 yn adlewyrchu rhaniad rhywedd poblogaeth gyfan Cymru.


## Tabl 2
## Tueddiadau rhywedd dros y 5 mlynedd ddiwethaf




Mae Tabl 2 yn amlygu tueddiadau rhywedd ein sefydliad yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Er ein bod ni'n falch o adrodd bod ein cydbwysedd rhywedd wedi gwella y llynedd, eleni rydyn ni wedi gweld gostyngiad siomedig yn nifer aelodau gwryw ein gweithlu. Byddwn ni'n parhau i weithio'n galed i wella'n hamrywiaeth rhywedd mewn prosesau recriwtio gyda hysbysebion sydd wedi'u geirio'n ofalus, a phaneli cyfweld sy'n gytbwys o ran rhywedd.

## 2. Ystategau Oedran y Gweithlu

**Tabl 3**
**Proffil oed**




Mae Tabl 3 yn dangos bod y rhan fwyaf o grwpiau oed yn cael eu cynrychioli yn y sefydliad ar hyn o bryd, ac eithrio 65 a throsodd.

## 2.Ystadegau Rhywedd, Math o Gontract a Chyflog y Gweithlu ar 31 Mawrth 2019

### Tabl 4
### Proffil Oedran

| CYFLOG - BAND neu gyfatebol | Gwryw Amser llawn Parhaol | Gwryw Amser llawn Dros dro | Gwryw Rhan amser Parhaol | Gwryw Rhan amser Dros dro | Benyw Amser llawn Parhaol | Benyw Amser llawn Dros dro | Benyw Rhan amser Parhaol | Benyw Rhan amser Dros dro | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Band Tîm £19-22k pa | | | | | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| Swyddog band 3 £23-27k pa | | | | | 1 | | | | 1 |
| Swyddog band 2 £29-35k pa | 3 | | | | 6 | | 4 | | 13 |
| Swyddog band 1 £37-44k pa | | | 1 | | 1 | | 1 | | 3 |
| Swyddog Band Gweithredol £48-58k | 1 | | | | 1 | | | | 2 |
| Comisiynydd £90-95k pa | | | | | | 1 | | | 1 |
| Partneriaethau a Threfniadau Cydweithio | | | | | | 1 | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **0** | **1** | **0** | **10** | **4** | **6** | **1** | **26** |

Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n Sylfaen ar gyfer system gyflogau CPC yn dyrannu bandiau i swyddi unigol ar sail saith factor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau cyflog yn gysylltiedig â gofynion penodol swyddi.

Mae Tabl 4 yn disgrifio'n gweithlu presennol o ran rhywedd, band cyflog, contract a phatrwm gwaith. Mae dadansoddi'r patrymau hyn ymhellach yn datgelu rhai gwasanaethau cyflog sy'n parhau yn ôl rhywedd.

**Graddau:**
O'r 21 aelod benyw o staff mewn swyddi ar 31 Mawrth 2019, cyflogir 4 aelod benyw o staff (14% o'r gweithlu benyw) yn y tri band cyflog uchaf, o gymharu â 2 aelod gwryw o staff (40% o'r gweithlu gwryw). Er bod y nifer llai o weithwyr gwryw yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch yn y gweithlu yn gyffredinol, mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli yn tueddu'n fwy at aelodau benyw o staff, gyda 4 aelod benyw a 2 wryw.

Dim ond aelodau benyw o staff sydd yn y band cyflog isaf yn CPC, a bu hynny'n wir ers 2011 pan ddechreuon ni gasglu ystadegau cydraddoldeb y gweithlu.

**Cyflog:**
Mae ein gweithlu yn dal i gynnwys mwy o staff benyw, ond cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2019 oedd £35,807 a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd £39,571. Mae gwahaniaeth o £3,764 eleni. Dyma'r gwahanrediad mwyaf i ni adrodd amdano ers 2015/16 a'r rheswm am hynny yw'r gostyngiad yn nifer yr aelodau gwryw o staff eleni, o 8 i 5, a recriwtio interniaid graddedig benyw ar y radd isaf.

**Patrwm gwaith:**
O'r 21 benyw a gyflogir, mae traean o'r gweithwyr yn llenwi rolau rhan amser (33% o'r gweithlu benyw neu 7 person) o gymharu â dim ond 1 gweithiwr gwryw (20% o'r gweithlu gwryw).

## Tabl 5
## Ystadegau'r Rhai a Adawodd y Gweithlu

| CYFLOG - BAND neu gyfatebol | Gwryw Amser llawn Parhaol | Gwryw Amser llawn Dros dro | Gwryw Rhan amser Parhaol | Gwryw Rhan amser Dros dro | Benyw Amser llawn Parhaol | Benyw Amser llawn Dros dro | Benyw Rhan amser Parhaol | Benyw Rhan amser Dros dro | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog band 3 £23 – 27k pa | 1 | | | | | | | | 1 |
| Swyddog band 2 £29 – 35k pa | 1 | | | | | | 2 | | 3 |
| Swyddog band 1 £37 – 44k pa | 1 | | | | | | | | 1 |
| Partneriaethau a Threfniadau Cydweithio | | | | | | 1 | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** | **1** | **2** | **0** | **6** |

Ymunodd saith person newydd â'r tîm rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 (3 swydd dros dro a 3 swydd barhaol) a gadawodd chwe aelod staff y tîm yn ystod yr un cyfnod.

Mae hon yn gyfradd drosiant o 23.5%.

## 6. Ystadegau Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

### Tabl 6

| CYFLOG – BAND | Gwryw Amser llawn Parhaol | Gwryw Amser llawn Dros dro | Gwryw Rhan amser Parhaol | Gwryw Rhan amser Dros dro | Benyw Amser llawn Parhaol | Benyw Amser llawn Dros dro | Benyw Rhan amser Parhaol | Benyw Rhan amser Dros dro | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog Band Tîm £19-22k pa | | | | | | 1 | | | 1 |
| Swyddog Band 3 £23-27k pa | | | | | | | | | |
| Swyddog Band 2 £29 -35k pa | 1 | | | | | | 1 | | 2 |
| Swyddog Band 1 £37-44k pa | | | 1 | | 1 | | 1 | | 3 |
| Band Gweith. 2 £48-58k pa | 1 | | | | 1 | | | | 2 |
| Comisiynydd £90-95k pa | | | | | | 1 | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **0** | **1** | **0** | **2** | **2** | **2** | **0** | **26** |

# Ein prosesau

**Cwynion:** Daeth 2 gwyn i law eleni, rydyn ni wedi rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda'r aelodau perthnasol o staff, ac mae cwynion yn cael eu trafod bob chwarter gyda'n Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

## Ein gwaith ar weithredu Safonau'r Gymraeg:

### Deddf yr Iaith Gymraeg

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn yn rhoi manylion am sut rydyn ni wedi cydymffurfio ag adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n gofyn bod CPC yn glynu at gyfres o safonau ar gyfer y Gymraeg a wnaed yn orfodol i'n swyddfa gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2016.

### Sut rydyn ni wedi cydymffurfio â'r Ddeddf

Rydyn ni'n mynd ati i hybu'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae gennym fesurau strwythurol yn eu lle i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae aelod o'r tîm rheoli yn arwain ar gydymffurfio â'r holl ofynion o ran cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

Eleni rydyn ni wedi:

- **Parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yng nghyfarfodydd misol y tîm rheoli.**
- **Gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae'r holl staff oedd ddim yn rhugl wedi cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg yn fewnol. Mae cyfleoedd i ddysgu wedi cael eu darparu i'r staff yn unol â lefel eu sgiliau.**
- **Adolygu gyda'r staff y cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli i wella'u sgiliau Cymraeg a rhoi newidiadau ar waith i'r dysgu Cymraeg sydd ar gael yn fewnol.**
- **Mynychu gweithdy Comisiynydd y Gymraeg ar benderfyniadau Polisi a gweithrediadau mewnol.**
- **Ailfrandio a diweddaru'r wefan allanol, gan sicrhau bod y ddwy elfen yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.**
- **Parhau i gynnig ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis y rhai sy'n cyrchu ein gwasanaethau, gan gynnwys ein holl ddeunydd ysgrifenedig, gweminarau, diwrnodau i lysgenhadon a phob ymgysylltu arall â phlant, y gwasanaeth gwaith achosion a'r dderbynfa.**

**Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 145)** –
Ar 31 Mawrth 2019 roedd 26 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 26 person a gyflogwyd yn ystod y cyfnod hwnnw:

- **Mae 8 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg.**
- **Mae 6 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau canolradd yn y Gymraeg.**
- **Mae 3 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel uwch yn Gymraeg.**
- **Mae 0 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel sylfaenol yn Gymraeg.**
- **Mae 9 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd â Chymraeg lefel mynediad.**

**Nifer y gweithwyr a aeth ar gyrsiau hyfforddi roedden ni'n eu cynnig yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safon 146) –**
Fe gynigion ni un cwrs hyfforddi yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn - "Cymraeg Clir" – a gyflwynwyd i 5 aelod o staff yn y swyddfa.

Er mwyn helpu'r staff i wella'u sgiliau Cymraeg, fe wnaethon ni gomisiynu cyrsiau hyfforddi Cymraeg wedi'u teilwra yn ystod y cyfnod yma.

**Nifer y swyddi newydd a gwag y buon ni'n eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle roedd:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol** – n swydd Swyddog Gweinyddol dros dro, un Swydd Swyddog Cymorth Gweinyddol, tair swydd Swyddog Cyfranogiad parhaol, un swydd Swyddog Cyfranogiad dros dro, ac un swydd Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.
- **Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd** – Dim
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol** – Dwy swydd Swyddog Polisi a dwy swydd intern graddedig.
- **Sgiliau Cymraeg heb fod yn angenrheidiol** – Un swydd Rheolwr Prosiect Ariannol dros dro.

**Nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt cydymffurfio â'r safonau gweithredol yr oedd dyletswydd arnon ni i gydymffurfio â nhw –** Ni ddaeth cwynion i law mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredol.


## Ein gwaith yn gweithredu'r Ddeddf Cydraddoldeb

Mae ein cynllun strategol ar gydraddoldeb 2016 – 2020 yn cynnwys gwybodaeth ar sut fyddwn ni'n mynd ati i sicrhau fod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn tyfu fyny mewn gwlad lle mae cydraddoldeb a hawliau plant yn rhan annatod o sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu. Mae'r cynllun yma yn cynnwys pedwar o amcanion eang ac rydyn ni'n trafod sut rydyn ni'n gweithredu'r amcanion hynny bob chwarter yn ein cyfarfod tîm rheoli.

Fel pencampwr plant a phobl ifanc Cymru, rwy'n ymfalchio yn y gwaith eang iawn ry'n ni'n gwneud yn ymgysylltu gyda'r rheiny ry' ni yma i'w cynrychioli. O fewn blwyddyn o fod yn Gomisiynydd fe wnes i ymgynghoriad gyda dros 7000 o blant a phobl ifanc, wnaeth sôn wrthom am eu bywydau diogel, hapus ac egniol. Fe wnaethon ni hefyd glywed am sut mae rhai yn colli allan mewn nifer o wahanol ffyrdd, a sut mae rhai yn wynebu heriau ychwanegol ac yn cael eu gwahaniaethu oherwydd eu hoed, eu hanabledd, eu hil neu eu crefydd, oherwydd eu bod yn LGBT neu oherwydd eu rhywedd. Fe wnaethon ni ddefnyddio'r canlyniadau yma wrth ysgrifennu cynllun cyntaf cydraddoldeb Sally Holland fel Comisiynydd.

Eto eleni, er mwyn ein helpu ni greu cynllun gwaith tair mlynedd olaf Sally fel Comisiynydd, fe wnaethon ni ymghynghori eto; y tro hyn gyda dros 10000 o blant a phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol o ar draws Cymru. Mae'r canlyniadau 'Beth Nawr?' a'r adolygiad o dystiolaeth ar hawliau plant yng Nghymru yn mynd i siapio cynllun gwaith y tîm tan fod Sally'n gorffen ond mae e hefyd yn rhoi cipolwg manwl ar sut mae hawliau plant yn cael eu gwireddu yma a'r math o ddata sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd sy'n ein galluogi i fonitro hawliau plant. Mae'n addawol gweld fod ardaloedd o waith da ond mae yn le i bryderu, yn enwedig yn sgil y diffyg data sy'n cael eu casglu wrth blant a phobl ifanc ar yr iaith negyddol a'r bwlio sy'n digwydd yn ein hysgolion, sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Rydyn ni'n bwriadu gweithio ar rai o'r agweddau yma yn ein cynllun gwaith 2019/20.

# Cyfrifon



**O dan ei Gylch Gorchwyl, mae'n ofynnol bod y pwyllgor yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Plant (ARAC), felly, yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019.**

## Cyflwyniad

Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor annibynnol i Gomisiynydd Plant Cymru, i'w chynorthwyo i gyflawni ei chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i Gomisiynydd Plant Cymru ac mae'r aelodau yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol, heb bwerau gweithredol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru, rheoli risg, rheolaeth fewnol a fframwaith sicrwydd.

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cydymffurfio â'r egwyddorion Arfer Da a gyflwynwyd yn Llawlyfr Trysorfa Ei Mawrhydi ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg, gwahoddwyd yr aelodau i gwblhau Rhestr Gwirio Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg, a luniwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chymerwyd canlyniadau hynny i ystyriaeth wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## Aelodaeth

### Aelodau anweithredol

- Jocelyn Davies (Cadeirydd), cyn-Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Aine Denvir, cyfreithiwr gofal plant
- Margaret Provis, gynt yn Was Sifil
- Nina Ruddle, Pennaeth Ymgysylltu â Pholisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam
- Arwel Thomas, gynt yn Was Sifil

### Staff y Comisiynydd

- Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Tony Evans, Pennaeth Cyllid
- Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad
- Christian Webb, Cynorthwy-ydd Gweithredol i'r Comisiynydd, oedd yn darparu cymorth Ysgrifenyddol i'r Pwyllgor (hyd at fis Awst 2018), pan gymerwyd ei le gan Ceirios Williams, Swyddog Cymorth Gweithredol

### Eraill

Cynrychiolwyr o Deloitte LLP (archwilwyr mewnol) a Swyddfa Archwilio Cymru (archwilwyr allanol).

### Cydnabyddiaeth Ariannol

Nid yw'r aelodau yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol, ond gellir ad-dalu costau a ddaeth i'w rhan.

### Gwrthdaro Buddiant

Mae pob aelod o Bwyllgor ARAC yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau, a gedwir yn unol â'r holl reoliadau diogelu data perthnasol. Ar ben hynny, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod ARAC yn caniatáu datgan unrhyw fudd sy'n benodol i'r eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

### Hyfforddiant

Aeth y Cadeirydd i weithdy diweddaru'r sector ar seiberddiogelwch, GDPR, Sicrhau Risg a newidiadau yng nghyswllt IFRS 16 ac IR35 ym mis Hydref 2018, digwyddiad oedd yn cael ei gynnal gan Deloitte LLP. Mae cynlluniau ar waith i gynnal hyfforddiant gloywi ar reoli risg ar gyfer yr holl aelodau gyda Deloitte LLP yn 2019|20.

### Cyfarfodydd

Ein nod yw cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Mai 2018, mis Gorffennaf 2018, mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019.

### Cofnod Presenoldeb

| AELOD | LEFEL PRESENOLDEB |
|---|---|
| **Jocelyn Davies** | 100% |
| **Aine Denvir** | 75% |
| **Margaret Provis** | 100% |
| **Nina Ruddle** | 25% |
| **Arwel Thomas** | 100% |
| **Sally Holland** | 100% |
| **Tony Evans** | 75% |
| **Sara Jermin** | 100% |
| **Christian Webb** | 100% *Ysgrifennydd tan fis Awst 2018 |
| **Ceirios Williams** | 100% *Ysgrifennydd o fis Medi 2018 ymlaen |
| **Deloitte** | 100% |
| **Swyddfa Archwilio Cymru** | 100% |

### Gwaith y Pwyllgor

Mae'r Cylch Gorchwyl, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, yn nodi manylion cylch gwaith a chynllun gwaith y Pwyllgor. Diweddarwyd hwn a'i gymeradwyo ddiwethaf ym mis Mai 2018. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys manylion yr eitemau sefydlog ar agenda'r Pwyllgor, sef:

- **Y Gofrestr Risgiau**
- **Cofrestr Risgiau Seiber-ddiogelwch**
- **Adroddiad Cyllid**
- **Adroddiad Archwilio Mewnol**
- **Diweddariad Archwilio Allanol**
- **Fframwaith llywodraethu/gwerthuso**

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adolygu'r agenda cyn ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a'r rhai fydd yn mynychu'r cyfarfod.

Yn ogystal â'r eitemau arferol bu'r Pwyllgor yn adolygu'r polisïau mewnol canlynol a ddiweddarwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2018l19:

- **Y Polisi Rheoli Risg**
- **Y Polisi Cadw Dogfennau a'r cynllun gweithredu**

a hefyd yn cynghori ar y datganiad llywodraethu drafft, datganiadau newydd ynghylch parodrwydd i gymryd risg, cynlluniau gwaith drafft, gwybodaeth am y gofrestr asedau a'r amcangyfrif drafft o'r gyllideb i Lywodraeth Cymru. Bu'r Aelodau hefyd yn cynghori ar broses y sefydliad o gynnal adolygiad o'i swyddfa yn Abertawe, a chawsant adroddiadau chwarterol ar y gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â chwyn benodol.

Er mwyn sicrhau bod modd codi materion priodol yn gyfrinachol, mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn.

### Asesiad Cyffredinol

**Archwilio Allanol**
Yn ei Adroddiad a'i Lythyr Rheoli ynghylch Archwilio'r Datganiadau Ariannol (ISA260), adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Cynhwyswyd nifer o argymhellion hefyd o ganlyniad i faterion oedd yn codi o'r archwiliad, mewn perthynas ag agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu'r Comisiynydd a'i hadroddiadau ariannol, bwrw golwg dros broses yr adroddiadau ariannol, a rhai mesurau rheoli mewnol. Mae tîm y Comisiynydd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion hyn bob chwarter i'r Pwyllgor, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar wahân i drafod cynnydd gyda'r Comisiynydd ac ar wahân gyda Phennaeth Cyllid a'i dîm.

**Archwilio Mewnol**
Mae Deloitte LLP, yr archwilwyr mewnol a benodwyd gan y Comisiynydd, yn rhoi sicrwydd annibynnol, gwrthrychol i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu. Cwblhawyd rhaglen archwilio mewnol lawn ganddynt yn 2018l19, fel y cymeradwywyd gan ARAC ac fel y nodir yn ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor::

"Ar sail y gwaith a wnaethom, ein hasesiad cyffredinol yw bod modd dosbarthu'r sicrwydd ar gyfer llywodraethu corfforaethol fel **sicrwydd sylweddol.**"

"Ar sail y gwaith a wnaethom, ein hasesiad cyffredinol yw bod modd dosbarthu'r sicrwydd ar gyfer rheoli risg fel **sicrwydd sylweddol.**"

"Ar sail y gwaith a wnaethom yn ystod y flwyddyn gallwn ddod i'r casgliad bod gan y Comisiynydd system sylfaenol gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai ddarparu **sicrwydd sylweddol** ynghylch cyflawni amcanion y Comisiynydd."

*Diffiniad: Lefel Sicrwydd – Sylweddol. Mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol.

### Diweddglo

O ganlyniad i'w waith a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu bod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg sydd yn eu lle yn briodol, a'u bod wedi gweithredu'n foddhaol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Comisiynydd a'i staff am fod yn agored ac yn barod i dderbyn her, ac am eu hagwedd gydweithredol at waith y Pwyllgor. Hoffai'r Aelodau fynegi eu diolch hefyd i'r archwilwyr mewnol ac allanol am eu cyfraniad a'u cydweithio adeiladol.

Paratowyd gan
**Jocelyn Davies, Cadeirydd**
**Mai 2019**

## Cyflwyniad

Sefydliad annibynnol sy'n ymdrin â hawliau dynol plant yw Comisiynydd Plant Cymru. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae dwy gyfraith yn nodi'r rheolau ynghylch sut gall hi wneud ei gwaith, ac yn rhoi pwerau penodol iddi, sef Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000).

## Dyma grynodeb o bwerau'r Comisiynydd

- **Y pŵer i dolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd;**
- **Y pŵer i adolygu sut mae cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd yn ymarfer eu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau), gan gynnwys Llywodraeth Cymru;**
- **Y pŵer i archwilio achosion sy'n ymwneud â phlant unigol;**
- **Y pŵer i roi cymorth i blant unigol; a hefyd**
- **Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.**

Nid oes gan y Comisiynydd bŵer i weithredu mewn nifer o amgylchiadau a ddiffiniwyd:

- **Materion sydd heb eu datganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, tlodi plant, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y lluoedd arfog;**
- **Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu;**
- **Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu; a**
- **Rhag gwneud ymholiadau ynghylch neu adrodd ar unrhyw fater sydd neu a fu'n destun achos cyfreithiol.**

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng mis Mai 2006 a mis Awst 2016, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

## Uwch swyddogion

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn hon:

- **Yr Athro Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru;**
- **Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer;**
- **Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad;**
- **Tony Evans – Pennaeth Cyllid;**
- **Amanda Evans – Pennaeth Adnoddau Dynol; a**
- **Rachel Thomas – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.**

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau Anweithredol. Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw:

- **Jocelyn Davies – Cyn-aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**
- **Aine Denvir – Cyfreithiwr Gofal Plant;**
- **Margaret Provis, a fu gynt yn Was Sifil;**
- **Nina Ruddle – Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Wrecsam-Glyndwr, ac**
- **Arwel Thomas, a fu gynt yn Was Sifil.**

### Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2018-19 derbyniodd y Comisiynydd £1.543 miliwn (2017-18: £1.583 miliwn) i gyllido gweithgareddau'r Comisiynydd. Roedd y cyllid yn 2017-18 yn cynnwys £40,000 gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiect penodol (Bright Spots) o fewn y cyfnod hwn.

### Fformat y Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, Tŷŵ̂Ystumllwynarth, Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019, ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.579 miliwn ar gyfer y cyfnod (2017-18: £1.524 miliwn). Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £235,000 (2017-18: £271,000).

Yn ystod 2018-19 newidiodd staff y Comisiynydd i 22.50 (cyfwerth amser llawn) o 22.36 (cyfwerth amser llawn) aelod o staff, sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser.

## Dysgu a Datblygu

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y staff.

Trwy Broses Arfarnu'r Comisiynydd anogir yr holl staff i nodi anghenion datblygu personol a chofnodi'r anghenion hynny ar Gynllun Datblygu Personol. Proses yw'r Polisi Arfarnu sy'n cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion y sefydliad. Prif ddiben y broses hon yw gwella perfformiad pob gweithiwr a'u cyfraniad at gyflawni amcanion trwy roi iddynt y sgiliau a'r amgylchedd priodol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu sesiynau datblygu staff rheolaidd i'r holl weithwyr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu naill ai yn unol â statud, neu lle bernir bod hynny'n hanfodol i'r holl grwpiau o staff, gan gwmpasu pynciau, er enghraifft, megis Amddiffyn a Diogelu Plant.

## Ymgynghori â'r Staff ac Ymgysylltiad

Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori'n rheolaidd â'i staff ynghylch newidiadau sylweddol i'r sefydliad a blaenoriaethau datblygu trefniadol. Cyflawnir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cyfarfodydd staff wythnosol (Fika), arolygon rheolaidd a diwrnodau datblygu i'r tîm cyfan. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd i'r holl staff, yn unigol ac mewn grwpiau, gyfrannu at y cynllunio strategol.

## Absenoldeb Staff

Yn ystod 2018-19, cyfradd absenoldeb salwch swyddfa'r Comisiynydd oedd 5.45 y cant (2017-18: 3.8 y cant), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael.

## Cynaliadwyedd

Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i'r egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef:

- **Cymru lewyrchus;**
- **Cymru gydnerth;**
- **Cymru iachach;**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal;**
- **Cymru o gymunedau cydlynus;**
- **Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a**
- **Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.**

Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i leiafu effaith ei Swyddfa ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd, ac mae'n ceisio lleihau'r effaith honno trwy gymryd y camau canlynol:

- **Deunydd ysgrifennu ac adnoddau swyddfa: anogir y staff i gyfyngu gymaint â phosib ar eu defnydd o nwyddau traul y swyddfa. Cyfyngir gymaint â phosibl ar argraffu a llungopïo;**
- **Teithio: lle bo hynny'n ymarferol, cynhelir cyfarfodydd trwy ddefnyddio fideo-gynadledda pryd bynnag y bo modd. Mae dros 90 y cant o deithiau swyddogol y Comisiynydd yn digwydd ar drên neu ar feic, ac mae hi'n annog ei staff i wneud yr un peth;**
- **Ynni: mae'r Comisiynydd yn annog pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ynni, ac i ystyried ffyrdd o leihau eu hôl-troed carbon; a**
- **Gwaredu Gwastraff: mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i ailgylchu pob gwastraff, yn amodol ar gyfyngiadau allanol.**

Mae'r Comisiynydd wedi cael ei chynorthwyo hefyd gan Ysgol Gynradd Glyncollen i helpu i wella effeithlonrwydd ynni er mwyn lleihau'r ynni a ddefnyddir; a lleihau ôl-troed carbon y swyddfa.

## Cyfle Cyfartal

Ystyrir pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais chwaith gan amodau na gofynion na ellir eu cyfiawnhau.

## Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deloitte LLP yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

## Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Mor bell ag y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddfa wedi cymryd pob cam y dylasai ei gymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

O fewn y flwyddyn ariannol, nid adroddwyd am ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth sy'n sicrhau y cyfyngir gymaint â phosib ar ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol.

## Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

**O dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Plant Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac ar y sail honno. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddarparu darlun gwir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian y flwyddyn ariannol.**

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn arbennig â'r canlynol:

- **gglynu at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifeg addas yn gyson;**
- **dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;**
- **datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn yr FReM, wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y datganiadau ariannol lle na ddilynwyd y safonau hynny; a**
- **pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.**

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn sgîl paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

**Mae'r Datganiad hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi ar ba sail y sefydlwyd y corff, sut mae'n cael ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.**

### Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma amcan gor-redol y Comisiynydd pan fydd hi'n cyflawni ei swyddogaethau.

Mae crynodeb o bwerau'r Comisiynydd i'w weld **yma**.

### Deilydd cyfredol y Swydd

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd.

### Strwythur Llywodraethu

Isod ceir disgrifiad o strwythur llywodraethu'r Comisiynydd. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael yma.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Strwythur Llywodraethu

Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael yma.

### Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru

- Corfforaeth Un Person
- Swyddog Cyfrifyddu

### Y Tîm Rheoli (TRh)

**Yn cynnwys: Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Adnoddau Dynol, dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd.**

Prif ddiben y TRh yw rhoi cymorth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Y TRh sydd hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad a rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

### Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Panel Pobl Ifanc

**Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Panel Pobl Ifanc, sy'n cynnwys 10-12 o aelodau sy'n oedolion a 2-4 o bobl ifanc**

**Panel Pobl Ifanc, sy'n cynnwys 18 o aelodau 11-18 oed**

Darparu cyngor annibynnol, cymorth, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd i'r Comisiynydd a'i staff ynghylch polisïau a chynigion, gan lywio polisi a blaenoriaethau strategol.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

**Yn cynnwys: 4 - 6 aelod Anweithredol**

Cynghori'r Comisiynydd ar y prosesau strategol ar gyfer risgiau, eu rheoli a'u llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a gweithgaredd arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

# Fframwaith Llywodraethu

**Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.**

Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Mae'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio'n gadarn yn 'The Good Governance for Public Services', y cyfeiriodd Swyddfa Archwilio Cymru ato fel model arfer gorau, a'r 'International Framework: Good Governance in the Public Sector'. Mae hefyd yn tynnu ar elfennau o'r 'UK Corporate Governance Code'. Mae'n adeiladu ar Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad unigolion mewn bywyd cyhoeddus trwy gyflwyno chwe egwyddor allweddol llywodraethu da mewn cyrff gwasanaeth cyhoeddus.

Isod ceir manylion ynghylch i ba raddau mae'r sefydliad yn llwyddo i gyrraedd y safonau hyn, ac eglurir y rhesymau dros addasu'r egwyddorion i gydweddu â'r sefydliad. Yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae llywodraethu corfforaethol wedi bod yn destun archwilio mewnol gan ein hymgynghorwyr, Deloitte. Maent wedi cynnig sicrwydd sylweddol ynghylch ein llywodraethu corfforol yn 2018-19.

# Fframwaith Llywodraethu



### Bod yn eglur ynghylch diben a chanlyniadau'r sefydliad

Mae bod â diben sefydliadol pendant a set o amcanion clir yn un o nodweddion llywodraethu da. Fy null cynllunio strategol yw'r dull systemig o bennu nodau fy nhîm. Mae'n galluogi'r swyddfa i gadw at ei chylch gorchwyl deddfwriaethol a chyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a gyflwynwyd yn fy nghynllun tair blynedd: 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019'.

Mae'r prosesau cynllunio strategol a blynyddol yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau'r swyddfa; ac yn helpu i sicrhau bod fy nhîm a minnau yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sefydliadol er mwyn mwyafu ein heffaith dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu atebolrwydd

Datblygwyd fy nghynllun tair blynedd cyntaf yn dilyn ymgynghoriad graddfa fawr o fwy na 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gofalu amdanynt ac yn gweithio iddynt. Roedd y cynllun hwnnw'n cynnwys fy uchelgeisiau ar gyfer 2016-2019, ac yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf (2019-20) bydd gwerthusiad llawn o effaith y cynllun hwnnw yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi.

Er mwyn sicrhau bod fy nghynllun strategol terfynol fel Comisiynydd yn cael ei ddatblygu ar sail gwybodaeth a gasglwyd gan blant, pobl ifanc ac oedolion, cynhaliwyd ein hymgynghoriad mwyaf erioed, Beth Nawr, lle bu rhyw 11000 o bobl - dros 10000 o blant a mwy na 1000 o oedolion - yn cymryd rhan. Cyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau hwy at lunio'r 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2019 – 2022', sy'n cynnwys fy amcanion strategol ar gyfer y sefydliad.

Yn ogystal â'r ymgynghori hwn ar raddfa fawr, mae ein strategaeth gyfranogiad yn sicrhau fy mod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws y wlad, gan godi llais ar eu rhan, ac mae ein polisi cynllunio strategol yn disgwyl i'n holl brosiectau weithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflawni newid. Mae disgwyl hefyd i brosiectau gyfathrebu'n gynhwysfawr a dylanwadu ar gynlluniau er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allanol i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae fy mhaneli pobl ifanc ac oedolion yn rhoi cyngor a her i mi a'm tîm, ac mae cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda bellach

### Capasiti a gallu i fod yn sefydliad effeithiol

Rwy'n cydnabod bod llywodraethu'n cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o wybodaeth a phrofiad. Rwy'n hyderus, yn sgîl ein Fframwaith Datblygu Perfformiad , fod gan bob aelod o staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn proses sefydlu a buddsoddir hefyd mewn datblygu a meithrin doniau'r staff. Gallwch ddarllen mwy am ein rhaglen dysgu a datblygu yma.

Mae fy arolwg staff, bob dwy flynedd, hefyd yn helpu'r sefydliad i fesur profiad y gweithwyr, ac yn cyfrannu at y cylch parhaus o welliannau yng nghyswllt arferion pobl. Dyma rai o uchafbwyntiau ein harolwg staff yn 2018-19, a gwblhawyd gan 19 aelod o staff (cyfradd ymateb o 82%):

**Mae 100% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod yn gwrando ar wahanol gymunedau ac yn gweithio ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.**
**Mae 100% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod lleisiau plant yn ganolog i bopeth a wnawn.**
**Mae 100% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod yn gwerthuso ac yn arddangos ein heffaith a'n effeithiolrwydd.**
**Mae 89% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod yn dangos gwelliant parhaus yn ein gwaith ar sail adfyfyrio rheolaidd.**

# Fframwaith Llywodraethu

**Hybu Gwerthoedd ar draws y Sefydliad ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o ran Ymddygiad ac Ymarfer**

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyflawni, a ddatblygwyd gyda'r staff yn ystod 2015, yn sylfaen ar gyfer ein holl bolisïau gweithredol a staff, yn ogystal â'n strategaeth tair blynedd. Fe'u rhennir gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac fe'u cyfathrebir yn allanol ar ein gwefan: www.complantcymru.org.uk ac yn ein cyhoeddiadau strategol, gan gynnwys ein strategaeth tair blynedd.

Mae fy nhîm rheoli a minnau yn ymroddedig i alluogi a grymuso gweithwyr i gyrraedd nodau unigol, tîm a strategol, ac yn barnu bod y broses arfarnu flynyddol, pennu amcanion a phrosesau cynllunio datblygiad personol yn rhan hanfodol o gyflawni hynny.

Yn fy arolwg staff 2018l19, a gwblhawyd gan 19 aelod o staff (cyfradd ymateb o 82%), roedd y canlyniadau'n dangos bod:

**100% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'n diben fel sefydliad**
**89% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant eu bod yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ein nodau strategol ac amcanion ein cynllun gwaith blynyddol**
**100% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli prosiectau a chynllunio strategol.**

Datblygwyd fy Fframwaith Rheoli Perfformiad gyda'r staff, ac mae'n ein helpu i feithrin diwylliant sy'n gosod gwerth ar berfformiad lefel uchel ac yn cryfhau ac yn gwella sut rydyn ni'n cyflawni ein rolau.

Fel sefydliad, rydyn ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma a datblygu systemau a strwythurau clir i gynnal ein ffordd o weithio, a hynny am y rhesymau canlynol:

- **Rydyn ni'n gwybod bod sefydlu dealltwriaeth a rennir ynghylch yr hyn sydd i'w gyflawni, a bod pawb yn deall eu rôl oddi mewn i hynny, yn galluogi pobl i gyflawni ar ran y sefydliad a thros blant a phobl ifanc yng Nghymru. Rydyn ni'n cyflawni hyn trwy ddatblygu ein nodau strategol tymor hwy a'n cynlluniau gwaith blynyddol.**
- **Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn gwneud eu cyfraniad gorau ac yn darparu gwaith o'r ansawdd uchaf pan fydd ganddyn nhw waith clir, ystyrlon a heriol i'w wneud. Rydyn ni'n cyflawni hyn trwy bennu amcanion gwaith unigol ar gyfer y flwyddyn.**
- **Rydyn ni'n gwybod bod ansawdd y sgyrsiau rhwng rheolwyr llinell ac unigolion yn cael effaith uniongyrchol ar ein llwyddiant fel sefydliad. Rydyn ni'n gobeithio cyflawni hyn trwy strwythur o drafodaethau goruchwyliaeth rheolaidd a chyfarfodydd un-i-un i'r holl staff gyda'r Comisiynydd ddwywaith y flwyddyn.**
- **Rydyn ni hefyd yn gwybod bod cael amser i gynllunio gwaith ac adfyfyrio ar y pethau fu'n llwyddiannus a'r pethau allai fod yn wahanol yn y dyfodol yn galluogi unigolion i dyfu a gwella yn eu hymarfer. Rydyn ni'n cyflawni hyn trwy ein hymarfer arfarnu a datblygiad personol a'n dull o reoli prosiectau.**

### Gwneud Penderfyniadau Gwybodus a Thryloyw sy'n Destun Craffu Effeithiol a Rheoli Risg

Fel corfforaeth un person, fi sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn y swyddfa. Fodd bynnag, rwyf wedi dirprwyo agweddau ar y penderfyniadau gweithredol i'r Tîm Rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau'r holl staff wedi'u diffinio'n glir yn eu disgrifiadau swydd ac o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae gan bob gweithiwr amodau cyflogaeth a disgrifiad swydd clir, sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae gofyn bod pob aelod o staff yn gweithio oddi mewn i'n dull rheoli prosiectau, sy'n sicrhau bod ein hallbynnau a'n canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio'n glir a'u cyflawni. Mae cynllun rheoli prosiectau cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob prosiect, yn unol â'n Polisi Cynllunio Strategol diwygiedig, a gadwyd yn ganolog fel bod yr holl staff yn gallu cael mynediad iddo. Mae manylion ein holl waith prosiectau i'w gweld yma: www.complantcymru.org I gefnogi'r ffordd yma o weithio, mae pob aelod o'm tîm wedi cael mynediad i gwrs hyfforddi rheoli prosiectau a gymeradwywyd gan y Gymdeithas Rheoli Prosiectau, ac mae cyfran uchel o'r aelodau staff ar bob lefel o fewn y sefydliad wedi sicrhau cymhwyster rheoli prosiectau.

Mae'r trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir gan y Tîm Rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu hysgrifennu i lawr a'u nodi yn y cofnodion, a rennir gyda'r holl staff yn fisol ac yn chwarterol yn eu tro. Rhennir gwybodaeth gritigol neu sensitif o ran amser gyda'r tîm staff trwy e-bost neu yn ein cyfarfodydd 'Fika' wythnosol, sy'n cynnwys pob aelod o staff. Mae canlyniadau trafodaethau gyda'r paneli ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn cael eu rhannu gyda'r staff, ac mae aelodau o'r tîm yn chwarae rhan yn y cyfarfodydd hynny fel sy'n briodol.

Mae rheolaeth ariannol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr a chyfres o weithdrefnau ariannol clir, sydd i'w gweld yn Llawlyfr Cyllid y sefydliad. Mae'r broses o adolygu gwybodaeth i reolwyr yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd ar y gyllideb. Bob mis mae'r Tîm Rheoli yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael yr wybodaeth honno bob chwarter. Mae ein dull gweithredu seiliedig ar reoli prosiectau hefyd yn gofyn bod pob rheolwr prosiect yn datblygu cyllideb fanwl, a rhoddir adroddiad misol ar y rheiny yn y Tîm Rheoli. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi darparu sicrwydd sylweddol ynghylch rheolaeth y sefydliad ar y gyllideb a'r asedau sefydlog, a sicrwydd cymedrol ar gyfer ein prosesau bancio a rheoli arian parod.

Rwyf hefyd yn cymryd materion sy'n ymwneud â thwyll a chamweinyddu o ddifri calon. Mae gan fy nhîm a minnau bolisïau yn eu lle ar ddatgelu camarfer, gwrthwynebu twyll, côd ymddygiad a chwynion - mae pob un ohonynt wedi cael eu diwygio eleni, ac maent yn rhan o amserlen adolygu dreigl.

# Fframwaith Llywodraethu

## Rheoli Risg

Mae fy Mholisi Rheoli Risg yn diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y sefydliad. Mae wedi ei seilio ar ganllawiau arfer da gan y Sefydliad Rheoli Risg, y safonau rhyngwladol ar gyfer rheoli risg a amlinellir yn ISO 31000 a'r 'Llyfr Oren: Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau', a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r system reoli fewnol yng nghyswllt risg yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawni amcanion strategol y sefydliad a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hynny'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny ac effaith eu gwireddu ar y sefydliad ac ar blant a phobl ifanc, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwastraff. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod pob aelod o staff yn derbyn bod risgiau'n anochel. Mae hefyd yn golygu, yn ymarferol, y dylai pob aelod o staff fod yn rhagweithiol wrth ganfod a rheoli risgiau, er mwyn sicrhau bod ein cynllun strategol tair blynedd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Mae fy nhîm a minnau yn rheoli risg ar dair lefel:

- **Ein cofrestr risgiau gorfforaethol, sy'n nodi risgiau cysylltiedig â'n hamcanion strategol.**
- **Mae cofrestrau risg ein prosiectau a'r logiau materion, ar gyfer pob prosiect sy'n rhan o'n cynllun gwaith blynyddol, yn cael eu rheoli gan ein rheolwyr prosiectau, sy'n adrodd i'r Tîm Rheoli bob mis.**
- **Mae ein cofrestrau risg thematig yn eu lle ar gyfer meysydd penodol o'n gwaith craidd, e.e. seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan swyddogion sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.**

Eleni mae fy Nhîm Rheoli wedi datblygu cyfres o lefelau risg mae'r sefydliad yma'n barod i'w cymryd, ac mae fy Mhwyllgor Sicrhau Risg wedi eu hadolygu. Seiliwyd ein gwaith ar gyngor ac arweiniad gan y Sefydliad Rheoli Risg, Deloitte, a Chôd Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig, ac isod ceir datganiad cyffredinol ynghylch ein parodrwydd i gymryd risg. Mae modd gweld ein datganiadau eraill ynghylch ein parodrwydd i gymryd risg yma

**"Ein nod yw bod yn ymwybodol o risgiau, ddim yn rhy awyddus i osgoi risgiau, a rheoli risgiau sefydliadol yn weithredol er mwyn diogelu'r sefydliad a sicrhau ei fod yn tyfu. Er mwyn cyflawni'r nodau strategol, mae'r sefydliad yn cydnabod y bydd yn gorfod cymryd rhai risgiau a'u rheoli. Risgiau na ellir eu goddef yw rhai a allai wneud y canlynol:**

1. **Cael effaith negyddol ar ddiogelwch gweithwyr neu'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n gweithio drostyn nhw ac ar eu cyfer.**
2. **Niweidio gallu pobl i ymddiried yn y sefydliad a bwrw amheuaeth ar ein hygrededd.**
3. **Arwain at dorri cyfreithiau a rheoliadau.**
4. **Peryglu gweithrediadau'r sefydliad yn y dyfodol."**

## Adolygu Effeithiolrwydd

Mae ein cofrestr risgiau gorfforaethol yn cael ei halinio â'n cynllun gwaith tair blynedd, ac mae'n cynnwys risgiau cysylltiedig â'r canlynol:

- **Peidio â chyflawni canlyniadau mesuradwy neu ddiriaethol i blant yn unol ag amcanion ein strategaeth tair blynedd a'n cynllun gwaith blynyddol.**
- **Cyrff cyhoeddus ddim yn cydnabod pwysigrwydd dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant nac yn ei wreiddio wrth gyflwyno gwasanaeth.**
- **Methiant i amddiffyn plant ac oedolion sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r swyddfa yn ddigonol (ar y safle ac mewn mannau eraill).**
- **Gweithdrefnau gwybodaeth reoli annigonol.**
- **Diffyg cydymffurfio â dyletswyddau statudol y Comisiynydd.**

Rwy'n fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol eleni. Mae mesurau rheoli cadarn ar waith i liniaru'r risgiau hyn ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n fisol gan fy Nhîm Rheoli a phob chwarter gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Lle roedd angen gwaith newydd er mwyn i ni liniaru'r risgiau'n effeithiol, nodwyd hynny, ei ddyrannu a'i roi ar waith. Rydyn ni hefyd wedi llwyddo i ddileu rhai risgiau o'n cofrestr risgiau gorfforaethol eleni, naill ai trwy eu rheoli'n effeithiol a'u cau yn gyfangwbl neu trwy ostwng eu lefel i gofrestrau risg thematig perthnasol fel bod yr uwch-swyddog perthnasol yn gallu eu rheoli'n barhaus.

Yn 2019-20, i gyd-fynd â chyhoeddi ein cynllun tair blynedd newydd, bydd y gofrestr risgiau gorfforaethol yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn cyfateb i'n nodau corfforaethol newydd.

Mae'r rheolaeth ofalus ar risg wedi bod yn destun Archwilio Mewnol, yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Daeth Deloitte, ein harchwilwyr mewnol, i'r casgliad bod dosbarthiad sicrwydd rheoli risg yn 2018-19 yn 'sicrwydd sylweddol'. Bu ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn bwrw golwg dros effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg.

### Cyflawni'n effeithiol o ran swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir

Mae'r sefydliad yn cynnwys pedair swyddogaeth ryng-gysylltiedig - Polisi, Cyfranogiad, Cyfathrebu ac Ymchwiliadau a Chyngor - sy'n cydweithio mewn dull gweithredu tîm cyfan. Cefnogir pob un o'r timau gan swyddog cyllid penodol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Adnoddau Dynol, swyddogion gweinyddol a Swyddog TG. Rydyn ni'n cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynnol. Mae'r swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol yn ôl eu harbenigedd, ond maent yn dibynnu ar rannau eraill o'r sefydliad i gyflawni'r rhaglen waith.

Mae gan yr holl bwyllgorau a phaneli ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Comisiynydd Gylch Gorchwyl, a adolygir yn flynyddol, ac a gyhoeddir ar ein gwefan: www.complantcymru.org.uk.

Fel yr amlinellwyd yn ein Polisi a'n Proses Cynllunio Strategol, mae'r Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd yn erbyn ein holl brosiectau, a amlinellir yn y cynllun gwaith blynyddol, bob mis. Ar sail flynyddol, trwy'r Adroddiad Blynyddol, byddaf yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Mae fy fframwaith gwerthuso yn galluogi'r sefydliad i ddangos bod ein gwaith craidd a'n prosesau mewnol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, ac mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: pobl y Comisiynydd, prosesau sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol a gwerth am arian a phlant a phobl ifanc. Trafodir yr adroddiadau hyn bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli a phob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae dau banel ymgynghorol wedi bod ar waith ers tair blynedd. Mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys gofyniad penodol i gynnig cyngor pwyllog i mi a'm staff, yn ôl y galw, er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a chyflawni fy ngofynion gwaith.

# Adolygu Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, ac yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, a ydwyf i'n cydymffurfio â Chôd Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet. Hysbysir fy adolygiad o'r system honno gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor ynghylch effeithiolrwydd y system lywodraethu trwy waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.

Roedd y broses a ddefnyddiwyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu fel a ganlyn:

- **Bu'r Tîm Rheoli wrthi ar y cyd yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd;**
- **cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol;** a
- **chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio.**

Deloitte fu'n darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer fy swyddfa yn ystod y cyfnod. Maent yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd fy system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Roedd y Datganiad Sicrwydd canlynol yn rhan o Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol Deloitte 2018-19:

**"Ar sail y gwaith rydyn ni wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, rydyn ni'n gallu dod i'r casgliad bod gan y Comisiynydd, yn y bôn, system gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd sylweddol ynghylch cyflawni amcanion y Comisiynydd."**

Ar sail fy adolygiad effeithiolrwydd, nid oes materion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn codi a lle bo hynny'n berthnasol, rwy'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Côd Llywodraethu Corfforaethol.

### Rhaglen o Welliant ar gyfer Materion Llywodraethu

Gyda'm Tîm Rheoli byddaf yn parhau i fonitro'r amgylchedd rheoli mewnol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae dyletswydd gyfreithiol arnaf fi i reoli'n briodol yr adnoddau a ddarparwyd ar fy nghyfer er mwyn i'm swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Rhaid i mi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod fy swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn wedi darparu disgrifiad manwl o'r trefniadau hyn.

### Ardystiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi fy sicrhau bod y system lywodraethu a fu'n weithredol yn fy swyddfa yn ystod 2018-19 wedi bod yn un gadarn. Ar sail yr adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol, rwyf wedi fy sicrhau bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion y swyddfa ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau.

**Yr Athro Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
17 Gorffennaf, 2019

### Taliadau i Aelodau Uwch o'r Tîm Rheoli

Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Yn achos aelodau eraill y Tîm Rheoli, pennwyd y taliadau cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.

Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwilio, yn darparu manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y swyddogion uchaf sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn swyddfa'r Comisiynydd:

| | Cyflog £000* | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)* | | Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf)* | | Cyfanswm £000* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 |
| Yr Athro Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru | 90-95 | 90-95 | - | - | 36,000 | 36,000 | 126-131 | 126-131 |
| Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad** | 50-60 | 50-55 | - | - | - | - | 50-60 | 50-55 |
| Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer | 55-60 | 55-60 | - | - | 19,000 | 19,000 | 74-79 | 74-79 |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.
** Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,964 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

## Taliadau Canolrif

| | 2018-19 | 2017-18 Ailddatgan* |
|---|---|---|
| Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£'000) | 90-95 | 90-95 |
| Cyfanswm y Canolrif | 28,157 | 30,246 |
| Cymhareb | 1:3.29 | 1:3.02 |

Mae'n ofynnol fy mod yn datgelu'r berthynas rhwng y taliad a wnaed i'r unigolyn a dderbyniodd y cyflog uchaf a chanolrif taliadau'r gweithwyr. Band taliadau'r unigolyn a dderbyniodd y taliad uchaf yn 2018-19 oedd £90-£95,000 (2017-18: £90-£95,000). Rwyf wedi defnyddio pwynt canol yr ystod hon i gymharu'r symiau hyn, a chael cymhareb o 3.29 gwaith (2017-18: 3.02) taliad canolrif y gweithwyr. Mae cyfanswm y taliadau yn cynnwys y cyflog a'r buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr i bensiwn na gwerth trosglwyddo ariannol cyfatebol pensiynau.

## Iawndal a dalwyd, Dyfarniadau Sylweddol i Uwch Reolwyr Blaenorol

Yn ystod y cyfnod 2018-19 ni wnaed taliadau iawndal na dyfarniadau sylweddol i uwch-reolwyr blaenorol.

## Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

| | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn* | CETV(i) ar 31.3.19* | CETV(i) ar 31.3.18* | Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol yn CETV* |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Yr Athro Sally Holland– Comisiynydd Plant Cymru | 0-2.5 | 108 | 72 | 20 |
| Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 |
| Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer | 0-2.5 | 634 | 556 | 12 |

Nodyn 1: Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,964 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

### Y Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic, premium** neu **classic plus**); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian sy'n destun pleidlais gan y Senedd bob blwyddyn; ac er mai cynlluniau buddion diffiniedig yw'r rhain, nid oes modd datgelu swm eu hasedau a'u hatebolrwydd. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus** a **nuvos** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar ganran o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic, premium, classic plus** a **nuvos**. Mae'r buddion **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y **premium**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw **classic plus** yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y classic a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y **premium**. Yn **nuvos** mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI). Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŵn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau **classic, premium** a **classic plus** a 65 yn achos aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

**(i) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)**
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

**(ii) Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

O 1af Ebrill 2015 daeth cynllun pensiwn newydd, o'r enw Alpha, yn weithredol. Mae'r cynllun Alpha yn disodli'r cynlluniau **classic, premium, classic plus** a **nuvos**. Trosglwyddodd mwyafrif y staff yn uniongyrchol i Alpha ar 1af Ebrill 2015.

## Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

a) Ar gyfer y flwyddyn, roedd y costau staff yn cynnwys y canlynol:

| | 2018-2019 £000 | | | 2017-2018 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhaol | Arall | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Tâl a Chyflogau | 845 | 27 | 872 | 858 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 89 | - | 89 | 85 |
| Costau Pensiwn | 145 | - | 145 | 139 |
| **Is-gyfanswm** | **1,079** | **27** | **1,106** | **1,082** |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | (67) | - | (67) | (78) |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,012** | **-** | **1,039** | **1,004** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwnnw, ataliwyd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Fodd bynnag, ailbrisiwyd y cynllun yn 2018-19 a chyhoeddwyd cyfraniadau pensiwn diwygiedig i gyflogwyr gan Drysorlys Ei Mawrhydi o 1af Ebrill 2019. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil - www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £118,782 yn daladwy i PCSPS (2017-18: £103,669) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn.

>>>

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwn, ataliwyd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil – www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £103,669 yn daladwy i PCSPS (2017-18: £77,980) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn.

| | 2017-2018 | | | 2016-2017 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhaol | Arall | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogeion Uniongyrchol | 20.67 | 1.83 | 22.50 | 22.36 |
| **Cyfanswm** | **20.67** | **1.83** | **22.50** | **22.36** |

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

**Paratoi Adroddiadau ar Gynlluniau Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael:**

Yn ystod y cyfnod 2018-19 ni wnaed taliadau iawndal na phecynnau ymadael i gyn-weithwyr.

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Lle bo'r Comisiynydd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir am y costau ychwanegol gan y Comisiynydd, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Codir costau llawn yr ymadawiad ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn gwneud y penderfyniad. Credydir y symiau sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod i ddarpariaeth a ddefnyddir pan wneir y taliadau.

**Yr Athro Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
17 Gorffennaf, 2019

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 o dan baragraff 9(2) o atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Maent yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo a gyflwynwyd ynddynt. Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, sy'n seiliedig ar Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRSs), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- **yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2019 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;** ac
- **fe'u paratowyd yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.**

### Sail ar gyfer y farn hon

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae ISAs (UK) yn gofyn fy mod yn adrodd i chi yn yr achosion canlynol:

- **lle mae'r defnydd o sail busnes gweithredol wrth gyfrifyddu a pharatoi datganiadau ariannol yn amhriodol;** neu
- **lle nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu, yn y datganiadau ariannol, unrhyw ansicrwydd pwysig a nodwyd a allai arwain at amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sylfaen busnes gweithredol wrth gyfrifyddu, a hynny am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi rhyddhau'r datganiadau ariannol.**

**Gwybodaeth arall**

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddwyd i Gomisiynydd Plant Cymru yn pennu cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol hyn. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, yn ogystal â'm hadroddiad i fel archwilydd ar y datganiadau ariannol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am i'r graddau fel arall a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn eu cylch.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall i ganfod anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn ffeithiol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad, neu'n ffeithiol anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol pwysig neu anghysondebau, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny o ran fy adroddiad.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Barn ynghylch Rheoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Gan nad yw'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Gomisiynydd Plant Cymru yn pennu cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr wybodaeth arall wedi cael ei pharatoi'n briodol.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr wybodaeth arall yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau pwysig yn yr wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle byddaf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- **na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol;**
- **nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;**
- **na ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu**
- **os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.**

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddyd a wnaed yno gan Weinidogion Cymru, er mwyn cael ei fodloni bod y farn a roddir yn wir a theg, ac er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli mewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n barnu bod angen amdanynt, er mwyn medru paratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau pwysig, p'un ai twyll neu wall sy'n gyfrifol am hynny. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw faterion sy'n ymwneud â gweithrediad y busnes, a defnyddio'r sylfaen busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai bod hynny'n cael ei farnu'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion innau yw caffael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiadau pwysig, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad pwysig pan fydd yn codi. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a bernir eu bod yn bwysig os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol (FRC) www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Cyfrifoldebau o ran rheoleidd-dra**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'n ofynnol fy mod yn casglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

---

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Plant Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019**

| | Nodyn | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau gweinyddu: | | | |
| Costau staff | 2.3 | 1,039 | 1,004 |
| Dibrisiad | 2.2 | 8 | 8 |
| Costau Gweinyddu Eraill | 2.1 | 532 | 512 |
| | | 1,579 | 1,524 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | | - | - |
| Incwm Arall | | - | - |
| | | - | - |
| Gwariant Net | | 1,579 | 1,524 |
| Llog taladwy/derbynadwy | | - | - |
| Gwariant Net ar ôl llog | | 1,579 | 1,524 |
| Gwariant Arall Cynhwysfawr | | | |
| Enillion/(colled) net o ran ailbrisio Peiriannau a Chyfarpar | | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | 1,579 | 1,524 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 137 i 144 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | £000 | 2019<br>£000 | £000 | 20178<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4 | | 12 | | 5 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | 51 | | 66 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | 478 | 529 | 507 | 573 |
| **Cyfanswm Asedau** | | | 541 | | 578 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill taladwy | 7 | (154) | (154) | (147) | (147) |
| **Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 387 | | 431 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 13 | (152) | (152) | (160) | (160) |
| **Cyfanswm Asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | | 235 | | 271 |
| **Ecwiti Trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | **235** | | **271** |

**Yr Athro Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
17 Gorffennaf, 2019

Mae'r nodiadau ar dudalennau 137 i 144 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Lifoedd Arian ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019**

| | Nodyn | 2018-2019<br>£000 | 2017-2018<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant Net | 2 | 1,579 | 1,524 |
| Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod | 2 | (8) | (85) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | (15) | 6 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy | 7 | (7) | (55) |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 13 | 8 | 8 |
| **Defnydd o Ddarpariaethau** | | 1,557 | 1,398 |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar* | 4 | 15 | 7 |
| **All-lif arian net o weithgaredd buddsoddi** | | 15 | 7 |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllido net gan Lywodraeth Cymru | | (1,543) | (1,583) |
| **Cyllido Net** | | (1,543) | (1,583) |
| Cynnydd/(gostyngiad) net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | (29) | 178 |
| | | | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | | 507 | 329 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | | 478 | 507 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 137 i 144 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2019**

| | | Cronfa Gyffredinol |
|---|---|---|
| | Nodyn | £000 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2017** | | **215** |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,583 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (1,524) |
| Addasiad ar gyfer eitem nad aeth trwy'r gwariant net | | (3) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2018** | | **271** |
| | | |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2018-2019** | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,543 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (1,579) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2019** | | **235** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 137 i 144 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatâu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.

Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyflwyno ond nad ydynt yn effeithiol hyd yma, ac sydd heb gael eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau Ariannol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Nid oes modd rhesymol ar hyn o bryd i amcangyfrif effaith IFRS16, sydd wedi'i gyflwyno gan Fwrdd Rhyngwladol Safonau Cyfrifo (IASB), ond sydd heb ei fabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd, a bydd yn berthnasol o 2019-20.

Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Ariannu

Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi prisio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn bwysig. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpiwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

### 1.4 Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnod a amcangyfrifir ar gyfer eu hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- **Offer TGCh** — **3 blynedd**
- **Celfi** — **5 mlynedd**
- **Cyfarpar Swyddfa** — **5 mlynedd**
- **Gosodiadau a Ffitiadau** — **5 mlynedd**

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

### 1.5 Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

### 1.6 Treth ar Werth

Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.

### 1.7 Pensiynau
Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.

### 1.8 Prydlesi
Dosbarthir prydlesi asedau lle mae holl risgiau a manteision perchnogaeth ar ased wedi'i phrydlesi i bob pwrpas yn nwylo'r Comisiynydd fel prydlesi cyllidol. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealledig yn y brydles.

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fesul symiau cyfartal ar hyd cyfnod y brydles.

### 1.9 Adroddiadau Segmentol
Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau lle'r adroddir am y canlyniadau gweithredu.

### 1.10 Treuliau Staff
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.11 Darpariaethau
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

### 1.12 Arian Parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo
Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif banc masnachol wrth ei dderbyn. Hefyd cedwir arian mân yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 2. Costau Gweinyddu Eraill

| | | 2018-19<br>£000 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 2.1 Costau gweinyddu: | | | |
| Safleoedd | 94 | | 95 |
| Swyddfa | 63 | | 67 |
| Hyfforddi a recriwtio | 19 | | 33 |
| Teithio a chynhaliaeth | 12 | | 15 |
| Taliadau i archwilio allanol | 18 | | 18 |
| Taliadau i'r Archwilydd Mewnol | 13 | | 12 |
| Cyfathrebu | 41 | | 51 |
| Cyfarpar TGCh | 54 | | 21 |
| Arall | 214 | | 114 |
| Ffïoedd cyfreithiol a phroffesiynol | 4 | | 9 |
| Darpariaeth a wnaed o fewn y flwyddyn | - | | 77 |
| | | 532 | |
| 2.2 Tâl dibrisiad ar asedau cyffredin | 8 | | 8 |
| | | 8 | |
| 2.3 Costau staff:* | | | |
| Tâl a Chyflogau | 872 | | 858 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 89 | | 85 |
| Pensiwn | 145 | | 139 |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | (67) | | (78) |
| | | 1,039 | 1,004 |
| | | 1,579 | 1,524 |

* Mae rhagor o wybodaeth ynghylch costau staff i'w gweld yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

### 3. Gwybodaeth Segmentaidd

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.

## 4. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Offer TG | Gosodiadau a Ffitiadau | Celfi a Chyfarpar Swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 193 | 197 | 211 | 601 |
| Ychwanegiadau | 15 | - | - | 15 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 208 | 197 | 211 | 616 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 189 | 196 | 211 | 596 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 7 | 1 | - | 8 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 196 | 197 | 211 | 604 |
| Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2018 | 4 | 1 | - | 5 |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2019 | 12 | - | - | 12 |
| **Cyllido asedau:** | | | | |
| A berchnogir | | | | |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2018 | 4 | 1 | - | 5 |
| A berchnogir | | | | |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2019 | 12 | - | - | 12 |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Comisiynydd, nid oes dim asedau'n cael eu cyllido trwy brydles ariannol.

### 5. Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy

| | 2018-2019 £000 | 2017-2018 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | - | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 51 | 66 |
| | **51** | **66** |

### 6. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2018-2019 £000 | 2017-2018 £000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill | 507 | 329 |
| Newid net yn y gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | (29) | 178 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | **478** | **507** |

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth 2019 ar ffurf daliadau gyda banc Masnachol ac arian mewn llaw

### 7. Elfennau masnach ac eraill taladwy

Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2018-2019 £000 | 2017-2018 £000 |
|---|---|---|
| Trethi a Nawdd Cymdeithasol | 69 | 81 |
| Elfennau masnachol taladwy | 46 | 12 |
| Croniadau | 39 | 54 |
| | **154** | **147** |

### 8. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Prydlesi Gweithredol
Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben

| | 2018-2019 £000 | | 2017-2018 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol: | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 50 | 1 | 50 | 1 |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 66 | 2 | 116 | 4 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | - | - |
| | **116** | **3** | **166** | **5** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 9. Offerynnau ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei gweithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

**Risg Hylifedd**
Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg cyfradd Llog**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**
Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2019.

## 10. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2019.

## 11. Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd dim rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2019.

## 12. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru; derbyniodd £1.543 miliwn yn ystod y cyfnod. Cafodd y Comisiynydd nifer bach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod gyda Chyllid y Wlad (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol); a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil).

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

## 13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Ymadael yn Gynnar | Dadfeiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Gweddill ar 1 Ebrill 2018 | 83 | 77 | 160 |
| Defnydd o'r ddarpariaeth | (8) | - | (8) |
| Darpariaeth o fewn y flwyddyn | - | - | - |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2019 | 75 | 77 | 152 |

### Dadansoddiad o Amseriadau Disgwyliedig Darpariaethau

| | Ymadael yn Gynnar | Dadfeiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 8 | - | 8 |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 75 | 77 | 152 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | - |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2019 | 83 | 77 | 160 |

### Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'r Comisiynydd yn talu am gost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yng nghyswllt gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar trwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar ac oedran arferol ymddeol. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd yr ymadawiad cynnar yn dod yn rhwymol trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

### Dadfeiliadau

Mae'r Comisiynydd yn talu am gost cyflawni ei rhwymedigaethau o dan delerau prydles ei swyddfa yn Abertawe, prydles sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

## 14. Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w rhyddhau ar 17 Gorffennaf 2019.

## Dyma sut i gysylltu gyda ni:

**Comisiynydd Plant Cymru**
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS

**0808 801 1000 /**
**post@complantcymru.org.uk**

**@complantcymru**
**complantcymru.org.uk**



**Comisiynydd Plant Cymru**

Children's Commissioner for Wales